# Rhagair

Mae'r arolygiad hwn o waith troseddwyr ifanc yn Wrecsam yn un o nifer fach o arolygiadau llawn ar y cyd rydym yn eu gwneud yn flynyddol gyda chydweithwyr o'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol, iechyd a dysgu a sgiliau.

Mae'r rhan fwyaf o'r Timau Troseddau Ieuenctid a ddewisir ar gyfer yr arolygiadau hyn wedi'u dewis gan fod eu perfformiad - yn seiliedig ar y tri Dangosydd Canlyniadau Cyfiawnder Ieuenctid Cenedlaethol a gefnogir gan wybodaeth arall, fel arolygiadau diweddar - yn destun cryn bryder. O bryd i'w gilydd, rydym hefyd yn cynnwys meysydd sy'n perfformio'n dda i sefydlu meincnod o arfer da.

Rydym wedi dewis arolygu yn Wrecsam yn bennaf oherwydd bod eu cyfraddau aildroseddu a adroddwyd yn uwch na'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill.

Roeddem yn falch o ganfod bod Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam (YJS) wedi gwneud cynnydd sylweddol ers ein harolygiad diwethaf yn 2010. Mae ad-drefnu diweddar wedi alinio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ochr yn ochr â gwasanaethau ieuenctid, o dan un strwythur o uwch reolwyr. Roedd y ffordd y gwnaethpwyd hyn yn golygu bod sgiliau arbenigol staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn debygol o gael eu cynnal a'u cryfhau, fel roedd y gwaith ar y cyd gyda'r gwasanaethau hynny a fyddai'n parhau i ddarparu cefnogaeth i lawer o blant a phobl ifanc unwaith y byddai eu gwaith â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dod i ben. Canfuom lawer o ffocws ar atal yn fuan o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, neu a wnaethpwyd ar y cyd, gan ddangos gwerth y dull hwn.

Gweithiodd partneriaid gyda'i gilydd yn dda ar lefelau strategol a gweithredol, er bod effeithiolrwydd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi'i gyfyngu oherwydd absenoldeb mynych partneriaid statudol. Roedd llawer o'r gwaith rheoli achosion o safon uchel ac roedd y defnyddwyr gwasanaeth yn canmol eu cyfranogiad gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ond roedd rhai meysydd sylweddol angen eu gwella hefyd. Roedd angen i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ddatblygu mwy o gysondeb o ran ei ddull o reoli gwaith ar risg o niwed ac i sicrhau bod genethod a merched ifanc yn cyfranogi wrth fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol.

Bwriad yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yw cynorthwyo Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam a'i bartneriaid i barhau i wella drwy eu helpu i ganolbwyntio ar feysydd allweddol penodol. Gwnaethpwyd argraff dda arnom gan ymrwymiad Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Pennaeth y Gwasanaeth a phartneriaid eraill i wella gwaith gyda'r rhai hynny oedd wedi troseddu. Gwnaethpwyd argraff yr un mor dda arnom gan ansawdd da'r staff a'u canolbwynt clir ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r plant a'r bobl ifanc roeddent yn gweithio â nhw. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn gosod sylfaen gadarn i barhau i wella ac yn rhoi hyder i ni y gweithredir ar ganfyddiadau'r arolygiad hwn yn sydyn ac yn effeithiol.



***Liz Calderbank***
*Prif Arolygydd Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi*

*Ionawr 2014*

# Crynodeb

### Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu ★★★☆

*Yn gyffredinol, roedd y gwaith o leihau aildroseddu'n foddhaol.* Roedd asesiadau a chynlluniau yn dda, gyda chynlluniau'n ystyrlon i blant a phobl ifanc. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd contractau gorchymyn atgyfeirio'n wael. Roedd cynlluniau mewn achosion carcharol â chydbwysedd priodol rhwng anghenion y sefydliad a'r ffactorau a allai leihau aildroseddu mewn achosion unigol. Roedd adroddiadau cyn-dedfrydu o ansawdd uchel ac yn gryno. Roedd gweithwyr achos â mynediad at ystod eang o ymyriadau, a gyflwynwyd yn dda ganddynt; er na roddwyd sylw digonol bob amser i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall y gwaith. Roedd gwaith ar y cyd gyda'r Ymddiriedolaeth Prawf yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r rhai a oedd yn symud i wasanaethau oedolion. Roedd angen gwella'r dull o rannu gwasanaeth rhwng y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a rheolwyr achos. Cymerwyd camau priodol gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i fynd i'r afael ag anghenion y rhai a oedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu nad oedd yn cael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

### Amddiffyn y cyhoedd ★★★☆

*Yn gyffredinol, roedd gwaith amddiffyn y cyhoedd a dioddefwyr posibl neu wirioneddol yn foddhaol.* Roedd darnau unigol o waith yn aml yn bodloni anghenion yr achos penodol, er byddai cynlluniau'n elwa o fod yn llawer mwy eglur. Pan oedd y gweithiwr achos wedi trefnu y byddai rhywbeth yn cael ei wneud, roeddent yn ei wneud. Fodd bynnag, roedd y cryfderau hyn yn cuddio dull anghyson gyda'r gwaith risg o niwed. Gwnaethom nodi rhywfaint o densiwn rhwng gwaith amddiffyn y cyhoedd a ffocws ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc - pan gaiff ei wneud yn dda dylai gwaith amddiffyn y cyhoedd hefyd leihau faint mae'r plentyn neu'r person ifanc yn agored i niwed. Byddai'r gwaith hwn hefyd yn elwa ar well dealltwriaeth o Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA). Ni roddwyd digon o ffocws ar ddioddefwyr hysbys. Roedd gwaith wedi'i dargedu o ansawdd da gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a gweithwyr camddefnyddio sylweddau i fynd i'r afael â risg o niwed i eraill.

### Amddiffyn plant a phobl ifanc ★★★☆

*Yn gyffredinol, roedd gwaith amddiffyn plant a phobl ifanc a lleihau eu perygl o fod yn agored i niwed yn foddhaol.* Roedd staff yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn eiriolwyr effeithiol dros blant a phobl ifanc. Roedd asesu a chynllunio'n diwallu anghenion yr achosion yn gyffredinol, a gwnaethpwyd y gwaith cywir yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn a'u bod yn llai agored i niwed. Roedd y gwaith i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau hefyd yn dda ac roedd gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid berthynas gadarnhaol gyda'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Roedd angen gwneud gwaith i sicrhau bod cyfathrebu gyda gwasanaethau cymdeithasol plant yn effeithiol bob tro, er bod gwaith ar y cyd gyda'r tîm gadael gofal yn gryf. Roedd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam yn gweithio gyda llawer iawn o blant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal ac wedi'u lleoli yn Wrecsam o rywle arall. Roeddent yn rhagweithiol i geisio sicrhau bod anawsterau penodol a achoswyd gan hyn yn cael eu cydnabod a'u goresgyn.

**Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni** ★★★★

*Yn gyffredinol, roedd gwaith i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni'n dda.* Cafodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid lawer o fudd o gael mynediad at Therapydd Iaith a Lleferydd. Gwnaeth hyn wahaniaeth sylweddol i'r gwaith gyda rhai plant a phobl ifanc; fodd bynnag, mae'r cyllid ar gyfer hyn dros dro ac mae angen sylw brys i sicrhau bod effaith gadarnhaol hyn yn cael ei gadw. Roedd rheolwyr achos wedi adeiladu perthnasau cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Roedd asesiad cywir ac fe gymerwyd camau priodol i fynd i'r afael ag amrywiaeth a ffactorau eraill a allai fod wedi gweithredu fel rhwystrau at ymgysylltu. Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gweithredu dull cadarnhaol i sicrhau bod cynnydd yn cael ei gydnabod a bod ymddygiad a oedd yn parhau i wella'n cael ei ganmol. Lle'r oedd angen camau gorfodi, roedd hyn yn diwallu anghenion yr achos; fodd bynnag, roedd angen gweithio i sicrhau bod genethod a merched ifanc yn cyfranogi'n llawn wrth fynd i'r afael â gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

**Llywodraethu** ★★☆☆

*Yn gyffredinol, nid oedd llywodraethu'n effeithiol.*
Canfuom waith partneriaeth da yn Wrecsam ac ymrwymiad i waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Fodd bynnag, roedd cadernid y gwaith hwn yn gyfyngedig iawn oherwydd presenoldeb gwael rhai partneriaid statudol ar Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. O ganlyniad, ni allai'r corff pwysig hwn ddal partneriaid i gyfrif yn effeithiol na dal y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i gyfrif, drwy weithredu fel partneriaeth. Roedd gwaith ar y gweill i fynd i'r afael ag effeithiolrwydd y Bwrdd Rheoli. Roeddem yn falch bod lleihau aildroseddu gan blant a phobl ifanc yn cael ei adlewyrchu mewn blaenoriaethau lleol ac roedd gwybodaeth dda am waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Ni roddwyd sylw digonol i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg. Nid oedd barn defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu casglu a'u coladu fel mater o drefn er mwyn llywio datblygiad a gwella gwasanaethau.

# Argymhellion

Dylai gwaith gwella ar ôl yr arolygiad ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

1. Mae angen i bresenoldeb gan bartneriaid statudol ar Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gan gynnwys yr heddlu, iechyd, gwasanaeth prawf ac o fewn yr awdurdod lleol, fod yn fwy rheolaidd a sefydlog, fel bod y Bwrdd mewn sefyllfa gryfach i ddarparu arweiniad strategol ar gyfer gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac i ddal partneriaid a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i gyfrif (Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid).
2. Dylid cael dull cyson gyda gwaith risg o niwed sydd â ffocws pendant ar y prif amcan o amddiffyn y cyhoedd. Yn enwedig, dylai cynlluniau fod yn glir ac yn fanwl gywir, Trefniadau Amlasiantaethol i Amddiffyn y Cyhoedd wedi'u deall yn iawn a llawer o sylw wedi'i roi i anghenion dioddefwyr (Pennaeth y Gwasanaeth).
3. Dylai gweithwyr sicrhau bod eu hymgysylltiad â phlant a phobl ifanc i ddarparu ymyriadau yn cael eu gwneud mewn iaith sy'n ystyrlon i'r rhai maent yn gweithio â nhw, a sicrhau bod y gwaith yn cael ei ddeall (Pennaeth y Gwasanaeth).

4. Mae angen gweithio i sicrhau bod genethod a merched ifanc yn cyfranogi gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fel y gellir gwneud gwaith effeithiol i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu (Pennaeth y Gwasanaeth).
5. Rhaid rhoi sylw digonol i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid).
6. Dylai'r Bwrdd Rheoli a phartneriaid allweddol, yn enwedig addysg ac iechyd, sicrhau bod dyfodol y gwaith o fynd i'r afael ag anghenion iaith a lleferydd yn cael eu diogelu (Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid).
7. Dylid ffurfioli trefniadau rheoli gwybodaeth gyda Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i sicrhau bod gwybodaeth gyson ar gael ac wedi'i chadw ar gofnod yr achos am asesiadau, cynnydd a chanlyniadau o gyfranogiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (Pennaeth y Gwasanaeth).
8. Dylai'r holl staff gydnabod pan fydd newidiadau mewn amgylchiadau'n ddigon sylweddol i fod angen adolygiad o asesiadau neu gynlluniau, a gweithredu ar hyn yn unol â hynny (Pennaeth Gwasanaeth).

Nodwch: mae enwau unigolion yn yr adroddiad hwn wedi'u newid i ddiogelu anhysbysrwydd.

# Cynnwys

**Rhagair** ........................................ 1

**Crynodeb** ........................................ 2

**Argymhellion** ........................................ 3

**Cynnwys** ........................................ 5

**Thema 1: Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu** ........................................ 6

**Thema 2: Amddiffyn y cyhoedd** ........................................ 17

**Thema 3: Amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc** ........................................ 23

**Thema 4: Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni** ........................................ 29

**Thema 5: Llywodraethu** ........................................ 36

**Atodiad 1 Gwybodaeth gyd-destunol am yr ardal a arolygwyd** ........................................ 42

**Atodiad 2 Gwybodaeth gyd-destunol am y sampl achos a arolygwyd** ........................................ 43

**Atodiad 3 Cydnabyddiaethau** ........................................ 45

**Atodiad 4 Trefniadau arolygu** ........................................ 45

**Atodiad 5 Geirfa** ........................................ 47

**Atodiad 6 Dull sgorio** ........................................ 48

**ATODIAD 7 MEINI PRAWF** ........................................ 49

# Thema 1: Lleihau’r tebygolrwydd o aildroseddu

**Beth rydym yn disgwyl ei weld**

Gan mai pwrpas y system cyfiawnder ieuenctid yw atal plant a phobl ifanc rhag troseddu, rydym yn disgwyl i bartneriaid cyfiawnder ieuenctid gynyddu’r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus drwy gynnal asesiad a chynllunio o ansawdd da, darparu ymyriadau addas a dangos arweinyddiaeth gadarnhaol a rheolaeth effeithiol.

**Sgôr asesu achos**

Yn yr asesiad achos, yn gyffredinol roedd 73% o’r gwaith i leihau aildroseddu wedi’i wneud yn ddigon da.

**Canfyddiadau allweddol**

1. Roedd asesiadau’n ddadansoddol ac o ansawdd da.
2. Roedd Adroddiadau Cyn Dedfrydu (PSR) yn gryno ac yn diwallu anghenion y llys.
3. Roedd cynlluniau’n gyfeillgar i blant neu bobl ifanc ac yn adlewyrchu’r rhesymau a aseswyd dros droseddu.
4. Roedd cynlluniau carcharol yn adlewyrchu’r ddwy elfen o’r ddedfryd ac amcanion i leihau troseddu.
5. Darparwyd ymyriadau fel a gynlluniwyd, gan ddefnyddio deunyddiau addas a ddeallir yn dda gan staff.
6. Nid oedd staff bob tro’n rhoi digon o sylw i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall y gwaith, ac weithiau defnyddiwyd geirfa nad oedd yn ystyrlon iddynt.
7. Talwyd sylw da i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE) ac anghenion camddefnyddio sylweddau.
8. Roedd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS) yn werthfawr, er bod angen gwella ar ansawdd rhannu gwybodaeth.

**Esboniad o ganfyddiadau**

**1. Asesiad**

1.1. Roedd asesiadau o’r tebygolrwydd o aildroseddu o ansawdd da, yn ddadansoddol ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth i gefnogi’r penderfyniadau a wnaed. Adolygwyd mwy na thri chwarter o asesiadau a chynlluniau yn ôl y gofyn; er cafwyd rhai achosion lle nad oedd adolygiad wedi’i gynnal yn dilyn newid sylweddol mewn amgylchiadau.

**Enghraifft o achos**

Ymgysylltodd y gweithiwr, Jo, gyda Lee ar ei gyflymder ef. Cynhaliwyd yr asesiad ‘fesul tameidiau’. Defnyddiodd Jo iaith a oedd yn gyfeillgar i blant, ynghyd â chadarnhad. Roedd hi yn aml yn sicrhau bod Lee yn deall y cwestiynau a defnyddiodd ddulliau a chwestiynau gwahanol i gasglu’r wybodaeth roedd ei hangen. Ar y diwedd, rhoddodd Jo wahoddiad i Lee ddweud yn ei eiriau ei hun beth oedd ef yn ei feddwl oedd pwrpas y sesiwn.

1.2. Roedd asesu anghenion ETE, a'u cysylltiad â'r tebygolrwydd o aildroseddu yn gryf. Roedd gweithiwr addysg y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithio'n dda i sicrhau bod yr asesiad cychwynnol yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl a diweddar am ymddygiad a phresenoldeb, agweddau tuag at addysg, cyrhaeddiad ac arddulliau dysgu a ffafriwyd. Cwblhaodd bob plentyn a pherson ifanc asesiad o'u ffordd o ddysgu. Defnyddiodd staff yr asesiad yn dda i wneud yn si□r eu bod yn diwallu anghenion dysgu a nodwyd drwy gydol y ddedfryd. Roedd asesiadau hefyd yn talu sylw da i anawsterau cyfathrebu plant a phobl ifanc.

1.3. Roedd asesiad o gamddefnyddio sylweddau ac iechyd emosiynol neu iechyd meddwl yr un mor fanwl, er nad oedd y cysylltiadau rhwng y rhain a'r tebygolrwydd o aildroseddu yn cael eu disgrifio'n glir bob amser. Gwnaeth staff camddefnyddio sylweddau a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ddefnyddio ystod o offer asesu a sgrinio a ddilyswyd.

1.4. Gellid tynnu mwy o sylw at asesu iechyd corfforol, a oedd wedi'i gyfyngu i'r cwestiynau sgrinio ar Asset a sgrinio a wnaed yn dilyn atgyfeiriad at weithiwr camddefnyddio sylweddau neu wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Roedd yr wybodaeth am iechyd corfforol yn tueddu i fod yn fyr, sy'n dangos bod archwilio hyn yn annhebygol o fod wedi bod yn gynhwysfawr. Roedd Rheolwyr Achos yn derbyn hyfforddiant i weithredu'r defnydd rheolaidd o'r Offeryn Sgrinio Gwybodaeth Iechyd (HIST).

**Enghraifft o achos**

Mewn un achos roedd person ifanc wedi'i roi ar gwrs oedd yn cynnwys defnyddio offer diwydiannol, y gwnaeth ei fwynhau'n fawr. Fodd bynnag, roedd yn rhaid ei dynnu oddi ar y cwrs yn sydyn pan sylweddolwyd ei fod ag epilepsi. Tra bod hyn yn hysbys, nid oedd wedi'i gofnodi'n glir ac nid ar gael yn hawdd i unrhyw un a fyddai wedi bod angen gwybod hynny.

1.5. Roedd Adroddiadau Cyn Dedfrydu o safon dda ac yn fwy cryno na'r hyn a ganfyddwn yn aml, gan ganolbwyntio ar yr agweddau hynny ar ymddygiad neu anghenion y plentyn neu berson ifanc a oedd o fwy o werth i'r llys. Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gwneud ymdrechion penodol i sicrhau nad oedd yr wybodaeth amherthnasol ac ailadroddus yn cael eu cynnwys. Roedd pob Adroddiad Cyn Dedfrydu wedi bod yn destun trefniadau sicrwydd ansawdd lleol cyn eu cyflwyno i'r llys. Roedd tystiolaeth bod dedfrydwyr lleol yn gwerthfawrogi ansawdd yr Adroddiadau Cyn Dedfrydu a ddaeth gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam.

**Enghraifft o achos**

Roedd gan Jake anawsterau cyfathrebu sylweddol. Roedd yn cael trafferth deall beth roedd yn digwydd yn y llys a goblygiadau'r hyn roedd wedi'i wneud. Roedd asesiad iaith a lleferydd wedi'i atodi i'r Adroddiad Cyn Dedfrydu a oedd yn egluro'i anawsterau, y goblygiadau o opsiynau dedfrydu gwahanol, a rhoddodd gyngor i'r llys a oedd yn dedfrydu ar sut i ymgysylltu'n effeithiol ag ef. Gwerthfawrogwyd yr adroddiad hwn gan y llys ac roedd yn ddylanwadol wrth lywio'r canlyniad.

## 2. Cynllunio ar gyfer ymyriadau

2.1. Roedd digon o gynllunio ar waith i weithio i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu ym mhob achos ond un. Roedd cynlluniau'n adlewyrchu'r rhesymau dros droseddu a oedd wedi'u nodi yn yr asesiad. Sicrhaodd Rheolwyr Achos bod cynlluniau ar gyfer gorchmynion adsefydlu ieuenctid wedi'u hysgrifennu mewn iaith a oedd yn ystyrlon i'r plentyn neu berson ifanc, a oedd yn aml yn rhoi manylion ynghylch y newid a oedd angen ei wneud a sut y gellid ei gyflawni. Roedd rheolwyr achos yn aml yn gwneud ymdrechion penodol i sicrhau bod y cynllun yn ddealladwy lle'r oedd anghenion dysgu neu gyfathrebu wedi'u nodi.

**Enghraifft o achos**

Roedd Owen wedi cael diagnosis o anawsterau sylweddol iawn gyda llythrennedd, a deall yr hyn a ddywedwyd wrtho. Yn ei adolygiad cyntaf, treuliodd y rheolwr achos amser yn sicrhau bod Owen yn deall y cynnydd roedd wedi'i wneud a'r gwaith roedd angen ei wneud dros y misoedd nesaf. Roedd hi'n cydnabod na fyddai rhoi copi i Owen o'r adolygiad a'r cynllun ar y templed safonol yn diwallu ei anghenion. Teipiodd adolygiad a chynllun syml, mewn ffont mawr drwy ddefnyddio iaith syml a oedd yn ystyrlon i Owen. Roedd hwn hefyd yn adolygu ac yn ei longyfarch am ei gynnydd, yn ei annog i'w gynnal, yn darparu amcanion clir a syml, ac yn cynnwys lluniau fel sbardunau gweledol i helpu Owen i ddeall yr amcanion.

2.2. Mewn cyferbyniad, roedd cyflwyno contractau gorchymyn atgyfeirio'n wael. Roedd tystiolaeth bod paneli'n ymgysylltu â'r plentyn neu'r person ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn deall goblygiadau'r hyn roeddent wedi'i wneud a sut roedd angen iddynt newid. Fodd bynnag, roedd contractau'n rhestru nifer o feysydd o weithgarwch, heb wneud union amcan bob un yn glir. Nid oeddent ychwaith yn egluro beth oedd cyfrifoldeb penodol y plentyn neu'r person ifanc i gwrdd â phob 'amcan'. Roedd hyn yn golygu pan roedd y plentyn neu'r person ifanc yn llofnodi'r contract i gytuno iddo, nad oeddent yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth lawn am yr hyn roeddent yn ei arwyddo. Yn dilyn hynny, cwblhaodd y rheolwyr achos gynllun ymyrryd a chael y plentyn neu'r person ifanc i'w lofnodi, fel y gwnaethant ar gyfer dedfrydau eraill. Er bod hyn yn werthfawr o ran sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn deall yr hyn a ddisgwyliwyd ganddynt, roedd yn camddeall rôl y contract gorchymyn atgyfeirio; sef cytundeb rhwng y plentyn neu'r person ifanc, eu rhieni/gofalwyr a'r panel, nid cytundeb ar wahân rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'r rheolwr achos.

**Enghraifft o achos**

Mewn achos gorchymyn atgyfeirio, arsylwodd arolygydd mewn panel bod y person ifanc wedi cytuno y byddai 'gwaith empathi â'r dioddefwr' yn ei gontract, ond yn y cyfarfod nesaf gyda'i reolwr achos, pan ofynnwyd a oedd yn deall empathi â'r dioddefwr, atebodd "*Dwi ddim yn gwybod, does gen i ddim syniad*"

2.3. Roeddem yn arbennig o falch o weld bod y cynlluniau dedfryd ym mhob achos carcharol a arolygwyd yn adlewyrchu'r rheolaeth ymddygiad ac anghenion eraill y sefydliad yn y ddalfa, a'r gwaith roedd angen ei wneud i fynd i'r afael â'r rhesymau dros droseddu. Roedd hyn yn rhoi neges glir, ar y dechrau, ei bod yn un ddedfryd integredig. Yn ein profiad ni, mae'n anarferol i bob dedfryd o garchar fodloni'r safon hon. Rhaid canmol y rheolwyr achos a oedd yn sicrhau bod canlyniadau'r asesiad yn cael eu cydnabod, ac i staff yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Hindley a gynhyrchodd y cynlluniau y cytunwyd arnynt.

**Enghraifft o achos**

Roedd cynllun dedfryd Tom ar ddechrau ei ddedfryd o garchar yn cynnwys gwaith oedd yn canolbwyntio ar y drosedd i fynd i'r afael â meddwl am y canlyniadau. I helpu sefydlu'r cyswllt rhwng yr angen i fynd i'r afael â'i droseddu a'r pwysigrwydd o ymddwyn yn dda yn y ddalfa, roedd amcan yn y cynllun i wella'i ffordd o feddwl hefyd yn cynnwys targed penodol i barhau i beidio â chael dyfarniad.

## 3. Cyflawni ymyriadau

3.1. Mewn mwy na thri chwarter o'r achosion, cyflawnodd staff yr ymyriadau roeddent wedi'u cynllunio ac roedd eu hangen ar yr achos, er nad oedd adolygiadau ffurfiol yn cael eu cynnal bob amser pan fo angen. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, lle'r oedd angen y rhain, roedd ymyriadau wedi cael eu darparu i fynd i'r afael ag iechyd emosiynol neu iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, hunanganfyddiad ac agweddau at droseddu. Fodd bynnag, nid oedd digon o sylw wedi'i roi i ymyriadau amserol i fynd i'r afael ag iechyd corfforol a pherthynas deuluol, yn enwedig pan oedd y rhain yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd o aildroseddu.

3.2. Roeddem yn falch o ganfod bod cofnodion o sesiynau ymyriadau wedi'u strwythuro'n dda, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys elfen o adolygiad parhaus. Roeddem yn gallu nodi'r hyn a oedd wedi ei gynllunio, yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd a beth oedd asesiad y gweithiwr achos yn dilyn y sesiwn.

3.3. Roedd gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fynediad at ystod eang o ddeunyddiau ymyrryd ac roedd dealltwriaeth ynghylch lle'r oedd angen ymestyn ar y rhain, er nad oedd ganddynt rai ar gael ar unwaith yn yr iaith Gymraeg. Fe wnaethant ddweud os oedd angen hyn, y byddent yn cyfieithu'r deunyddiau. Yn ein barn ni, nid yw hyn yn mynd i'r afael yn ddigonol â hyrwyddo'r ddwy iaith yn gyfartal a ddylai fod yn amlwg ar draws y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

3.4. Roedd y deunyddiau a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i ddarparu ymyriadau o ansawdd da, ac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd a oedd yn cadw gonestrwydd eu dyluniad. Dangosodd reolwyr achos greadigrwydd yn y ffordd y gwnaethant ddefnyddio ymyriadau i gwrdd ag anghenion y plant a phobl ifanc.

**Sylw gan blentyn neu berson ifanc**

"*nath ni gêm fwrdd...i ddangos i fi pan dwi'n mynd yn flin a sut i stopio fy hun, dwi'n teimlo dwi'n gallu rheoli fy hun pan dwi'n flin rŵan…dwi'n gwbod pryd i gymryd cam yn ôl*"

3.5. Rhoddwyd sylw digonol i gyfiawnder adferol mewn dros tri chwarter yr achosion lle'r oedd yn briodol. Roedd hyfforddiant cyfiawnder adferol wedi cael ei ddarparu i rai staff, a oedd wedi dechrau defnyddio'r sgiliau hyn i gynllunio cynadleddau. Er mai dim ond dechrau yw hyn, mae'n galonogol clywed bod y sgiliau hyn yn cael eu defnyddio.

3.6. Roeddem yn gallu arsylwi ystod eang o waith sy'n cael ei wneud gyda phlant a phobl ifanc. Roedd gweithwyr yn gwybod ac yn deall y plant a phobl ifanc yn dda, yn ymgysylltu ac yn gadarnhaol yn eu hymagwedd, roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'r deunyddiau ymyrryd roeddent yn eu defnyddio, ac yn gwneud defnydd da o gadarnhad o ran annog ymatal.

3.7. Roedd rhai sesiynau yn cael eu cyflwyno i safon uchel. Fodd bynnag, roedd gennym ddau bryder penodol. Yn gyntaf, roedd yr eirfa, termau a jargon a ddefnyddiwyd gyda phlant a phobl ifanc weithiau yn eiriau a oedd yn cael eu cydnabod yn gyffredin gan weithwyr proffesiynol, ond nid oeddent yn cael eu cyfieithu i dermau a oedd yn debygol o gael eu deall gan blant a phobl ifanc.

3.8. Yn ail, roedd staff weithiau yn gwneud gormod o'r siarad, sy'n golygu eu bod yn colli cliwiau oedd yn haeddu archwiliad pellach ac nid yn darparu digon o gyfle i blant a phobl ifanc er mwyn cadarnhau eu dealltwriaeth - er enghraifft drwy grynhoi'r dysgu yn ôl yn eu geiriau eu hunain neu esbonio yr hyn y dylent ei wneud yn wahanol r□an. Weithiau, nid oedd digon o archwilio ystyr atebion ia neu na, yn enwedig wrth gadarnhau dealltwriaeth.

3.9. Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi dechrau ymgymryd ag arsylwadau ei hun. Byddem yn annog datblygu'r dull hwn, gan gynnwys trwy arsylwi cymheiriaid i gefnogi rhannu a datblygu arfer, yn hytrach na dim ond fel offeryn sicrhau ansawdd.

3.10. Defnyddiodd gweithwyr camddefnyddio sylweddau ddeunyddiau asesu ac ymyrryd (seico-addysgol) a oedd yn briodol ac yn ysgogol, gan arwain at ymgysylltu da a chwblhau'n llwyddiannus.

**Sylwadau gan arolygwyr**

Gwnaeth arolygwyr y sylwadau canlynol:

*"...dywedodd neb wrtho i ddweud [wrth y rhai a oedd yn bresennol] beth roedd ef yn ei feddwl roedd yn gorfod ei wneud…roedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn aml yn academaidd neu'n llawn jargon, geiriau fel dad-friffio, perchnogaeth gymdeithasol, rheoli gwrthdaro…, geiriau y gellid bod wedi'u disodli gydag esboniadau oedd yn ystyrlon iddo"*

*"...cyflwynodd y rheolwr achos yr ymarfer yn glir. Rhoddwyd digon o amser i'r person ifanc ateb y cwestiynau. Defnyddiwyd tawelwch yn dda ac aeth y sesiwn yn ei blaen ar gyflymder y gallai'r person ifanc ymdopi ag ef. Roedd archwiliad da o pam roedd y person ifanc wedi mynegi pethau yn y cyfarfod ac wedi'u gwneud…"*

3.11. Roedd rheolwyr achos yn talu sylw da i anghenion EHE. Roeddent yn ymgysylltu'n dda â gweithiwr addysg y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac yn parhau i'w chynnwys yn ystod adegau priodol. Mewn un enghraifft dda, yn dilyn cyfarfod i adolygu risg o niwed i eraill, rhoddwyd sylw da i gynllunio ymlaen llaw ynghylch cynlluniau addysg.

3.12. Roedd proses gadarnhaol ar waith ar gyfer rheoli'r trosglwyddiad i'r gwasanaeth prawf wrth i blant a phobl ifanc gyrraedd 18 mlwydd oed. Roedd y ffocws ar sicrhau nad oedd y person ifanc yn dod ar draws gwahaniaeth amlwg yn y dull wrth i'r achos gael ei drosglwyddo. Roedd protocol clir ar waith i gefnogi'r dull. Roedd amlder yr apwyntiadau a drefnwyd i ddechrau yn y gwasanaeth prawf yn adlewyrchu'r brwdfrydedd a oedd yn bodoli yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gan roi mwy o help i sicrhau nad oedd y person ifanc yn profi gostyngiad sydyn yn y cymorth oedd ar gael iddynt mewn cyfnod peryglus yn eu bywydau.

**Trosglwyddiad ieuenctid i oedolyn (Y2A)**

Mae pobl ifanc sydd bron yn 18 oed yn cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys ar y Cynllun Rheoli Troseddwyr Integredig i oedolion, a elwir yn lleol fel 8 Ffordd. Mae'r matrics i'w cynnwys ar y cynllun yn cael ei gymhwyso i bob un sy'n destun trosglwyddiad. Mae staff o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn mynychu cyfarfodydd gyda staff 8 Ffordd i ystyried manteision cynhwysiant a sicrhau trosglwyddiad llyfn. Pa un a yw eu cynnwys yn y cynllun yn briodol, mae pobl ifanc yn cael eu dyrannu i reolwr troseddwyr y cynllun, sy'n deall gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac felly'n gallu darparu cefnogaeth effeithiol. Mae'r rhai nad ydynt yn addas i'w cynnwys yn y tymor hir yn parhau i gael eu rheoli ynddo am y tri mis cyntaf, hyd nes i'w trosglwyddiad sefydlogi, ac nid yn cael eu symud hyd nes bod eu sefyllfa wedi cael ei adolygu. Ceir enghraifft o sut y gall gweithio ar y cyd fod yn effeithiol yn achos dyn ifanc a oedd yn derbyn cefnogaeth addysgol o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Er mwyn sicrhau parhad, roedd y gweithiwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i ddarparu cefnogaeth ar brawf ochr yn ochr â gweithgaredd penodol ETE. Profodd y parhad hwn yn fuddiol i'r person ifanc ac i rannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng gweithwyr achos.

3.13. Cafwyd pedwar achos lle'r oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi symud i Wrecsam yn ystod y ddedfryd. Mewn dau o'r rhain, nid oedd y trosglwyddiad yn

effeithiol wrth gynnal parhad gwasanaethau, oherwydd yr anawsterau o gael yr wybodaeth ofynnol gan y Tîm Troseddau Ieuenctid cartref, gan gynnwys dilyn symud y mater ymlaen at reolwyr. Roedd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam yn gwneud popeth rhesymol o fewn ei allu i wella rheolaeth y trosglwyddiadau a defnyddiodd fforwm trosglwyddo i adolygu bob achos wrth iddynt gael eu derbyn.

3.14. Nid oedd cofnodion o asesiadau, ymyriadau a chanlyniadau a gynhaliwyd o fewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, yn dilyn atgyfeiriad gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ar gael yn gyffredinol yn systemau rheoli achosion y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, heblaw am wybodaeth sylfaenol fel amseroedd aros. O ganlyniad, nid oedd gwybodaeth bwysig ar gael yn syth i unrhyw weithiwr achos y gallai fod angen hynny. Cadwodd nyrs y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ei chofnodion mewn ffeiliau ar wahân a gawsant eu lleoli ar safle gwahanol. Nid oedd unrhyw gysylltiad rhwng y system a ddefnyddiwyd gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, felly dim ond y gweithiwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid oedd yn gallu cael gafael ar y wybodaeth honno. Gellir goresgyn pryderon yngl□n â rhannu gwybodaeth yn aml drwy geisio cael caniatâd gan yr unigolyn i'w rhannu gydag eraill sydd ei hangen o bosibl, gyda chefnogaeth cytundeb rhannu gwybodaeth sy'n diffinio sut y gellir defnyddio'r wybodaeth honno.

**Enghraifft o achos**

Roedd gan Jack broblemau iechyd meddwl sylweddol. Roedd ei fam wedi codi pryderon bod Jack yn yfed llawer iawn o ddiodydd egni a oedd yn gwaethygu ei broblemau cysgu, a gallai gael goblygiadau ar ei feddyginiaeth. Gwnaeth y rheolwr achos atgyfeiriad yn syth at weithiwr camddefnyddio sylweddau a oedd wedi dod i weld Jack o fewn deuddydd, gan weithio gydag ef i leihau faint o ddiodydd roedd yn eu hyfed. Roedd hyn yn llwyddiant mawr. Ysgrifennodd y rheolwr achos at ei Feddyg Teulu hefyd i roi gwybod iddi.

3.15. Roedd gweithwyr camddefnyddio sylweddau yn cydnabod pwysigrwydd gweithgareddau gwrthdyniadol i dynnu sylw unigolion i helpu i leihau'r defnydd o gamddefnyddio sylweddau ac ymddygiad troseddol. Trefnasant gyfleoedd i fynd i'r gampfa, a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Roedd eu rhaglenni hefyd yn cynnwys cyfleoedd i ennill cymwysterau Rhwydwaith y Coleg Agored (OCN), a oedd yn dylanwadu ar hunan-barch a gall helpu i ddarparu cymhelliant i ennill cymwysterau eraill. Roedd y rhain yn debygol o helpu i leihau camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad troseddol.

**Enghraifft o achos**

Nid oedd gan Kyle hunan-barch priodol. Roedd hyn yn arwyddocaol yn ei droseddu gan nad oedd yn ystyried ei fod yn werth dim ac yn gweld dim rheswm i newid. Roedd yn ymddwyn yn blasé ond nid oedd ganddo hyder go iawn. Fel rhan o'i gamau gwneud iawn, fe weithiodd i lanhau'r cwt ieir oedd yn cael ei gynnal a'i gadw gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd ganddo ofn cymryd yr adar ond nid oedd am ddangos hynny. Roedd y rheolwr achos yn gallu defnyddio'r ffaith ei fod wedi goresgyn ei ofn fel tystiolaeth ei fod yn gallu newid a gwneud cyfraniad cadarnhaol. Cafodd dystysgrif OCN mewn gofal anifeiliaid bach. Gyda'i gilydd, fe wnaeth y rhain helpu Kyle i wella ei hunan-barch gan roi iddo ffordd wahanol o ystyried ei hun.

## 4. Canlyniadau Cychwynnol

4.1. Roedd mesurau canlyniadau ar gyfer gwaith staff Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a chamddefnyddio sylweddau wrthi'n cael eu datblygu. Roedd rhai mesurau cyn ac ar ôl ymyrryd wedi'u cymryd, gan adlewyrchu'r cynnydd yn y maes gwaith arbenigol. Nid oedd data ar gael ar hyn o bryd ar berthynas canlyniadau (gwaith iechyd) â thebygolrwydd aildroseddu. Roedd astudiaeth ymchwil, fodd bynnag, yn archwilio data Asset ac aildroseddu ers 2009. Mae hyn yn cynnwys yr holl atgyfeiriadau a wnaed i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Bydd yn archwilio patrymau a dylai adlewyrchu effaith mewnbwn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar aildroseddu.

4.2. Bu gostyngiad yn amlder a difrifoldeb y troseddu, ers dechrau'r ddedfryd neu ryddhau o'r ddalfa mewn dros hanner yr achosion lle'r oedd hanes o droseddu diweddar i'w hasesu.

4.3. Y meysydd a oedd yn gysylltiedig â throseddu lle gwelwyd y gwelliannau yn fwyaf cyffredin oedd camddefnyddio sylweddau, canfyddiad ohonynt eu hunain ac eraill, cymhelliant i newid, trefniadau byw ac agweddau at droseddu. Roedd y meysydd lle'r oedd gwelliannau yn llai aml yn gysylltiedig â ffordd o fyw ac ETE. Mae'r integreiddio â gwasanaethau ieuenctid a symud i mewn i'r adran Dysgu Gydol Oes yn gyfle arbennig i wella ffyrdd o fyw, ac i sicrhau bod rheolwyr achos yn rhoi mwy o sylw i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn gynaliadwy ar ôl diwedd y ddedfryd, gan gynnwys drwy ddatblygu strategaeth gwblhau glir.

**Sylwadau gan rieni/gofalwyr**

"*nid oedd ei ymddygiad cyn dod i'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn dda…roedd ei ffrindiau a'i safbwyntiau'n gibddall ond rŵan ar ôl gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid mae'n gadarnhaol ac yn canolbwyntio'n fwy*".

"*mae'n dda edrych yn ôl ar y cyfnod, oherwydd mae'n hogyn da ac maent rŵan wedi tynnu hynny allan ohono*".

## 5. Arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth

5.1. Roedd gan reolwyr achos fynediad at ddigon o adnoddau ar gyfer gwaith i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Roedd staff CAMHS, Therapydd Iaith a Lleferydd (SALT), gweithwyr camddefnyddio sylweddau a gweithiwr ETE wedi eu lleoli yn dda ac yn integreiddio'n dda i mewn i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Adroddodd Rheolwyr achos am gyfleoedd ardderchog ar gyfer trafodaethau achos ffurfiol ac yn anffurfiol.

5.2. Roedd prosesau atgyfeirio effeithiol i rybuddio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid pan oedd yr heddlu wedi gorfod delio â phlant a phobl ifanc ac wedi cael eu cyhuddo neu gosb llai ffurfiol. Mae hyn yn tynnu sylw'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid at y camau a gymerwyd neu'r cymorth y gofynnwyd amdano wrth benderfynu ar y canlyniad priodol. Cwblhaodd swyddogion heddlu ffurflen a elwir yn YOF8, a gyflwynwyd yn ddiogel ar-lein. Roedd cynllun cerdyn melyn yn cael ei weithredu gan Heddlu Gogledd Cymru mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol

eraill, lle'r oedd plant a phobl ifanc yn cael eu rhybuddio yn anffurfiol am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd rhywfaint o ddyblygu yn y wybodaeth a gynhyrchwyd ar gerdyn melyn ac ar yr YOF8. Mae hyn wedi cael ei gydnabod ac yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau eglurder o ran cyfrifoldebau wrth gysylltu â theuluoedd.

5.3. Roedd un o'r meysydd ar y ffurflen YOF8 yn gofyn a oedd y dioddefwr yn caniatáu i'w manylion gael eu trosglwyddo i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i'w galluogi i gysylltu â nhw. Roedd y ffurflen yn syml yn cynnwys blwch ticio ydw/nac ydw heb unrhyw gyd-destun neu esboniad ynghylch pam y gallai hyn fod o fudd i'r dioddefwr. Credir bod hyn wedi cael effaith sylweddol ar y tebygolrwydd y bydd dioddefwyr yn derbyn cyswllt, gyda llawer o ffurflenni'n ymateb 'nac ydw'. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r geiriad ar y ffurflen hon yn darparu mwy o gymorth i swyddogion wrth egluro manteision cysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. P'un bynnag, mae'n hanfodol bod dioddefwyr yn deall y manteision posibl o ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid cyn y gofynnir iddynt ateb y cwestiwn hwn.

5.4. Roedd mynediad at systemau TG yr heddlu o swyddfa'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn broblemus. Roeddem yn deall bod hyn wedi bodoli am gyfnod sylweddol o amser. Gan fod rhan allweddol o'r rôl yn dibynnu ar fynediad at systemau'r heddlu, er mwyn asesu risgiau i bobl ifanc a derbyn a rhannu gwybodaeth, mae hyn yn gofyn am sylw brys. Dywedodd arolygwyr hefyd fod perfformiad prif system rheoli achosion y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn llawer arafach ac yn llai dibynadwy nag sy'n gyffredin. Roeddem yn falch o ganfod bod gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid nawr hyrwyddwr profiadol ar gyfer defnyddio'r system Careworks, ac mae ei rôl yn cynnwys helpu rheolwyr achos i wneud defnydd mwy effeithiol o'i botensial.

5.5. Roedd rheolwyr achos â dealltwriaeth dda o egwyddorion arfer effeithiol gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu.

5.6. Roedd gwasanaeth gwerthfawr gan yr Ymgynghorydd CAMHS a oedd yn gweithio yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid un hanner diwrnod bob pythefnos; yn darparu goruchwyliaeth, yn ymgynghori, ac yn rhoi cyngor i staff yn ogystal ag asesiadau a therapi ar gyfer plant a phobl ifanc. Darparodd hyn atgyfeiriad 'llwybr cyflym' i mewn i CAMHS mewn gwirionedd, oherwydd hyd yn oed os nad oeddent yn cael eu trin ganddo, gallai'r ymgynghorydd gyfeirio plant a phobl ifanc yn uniongyrchol at gydweithwyr am driniaeth arbenigol. O ystyried y gyfran o blant a phobl ifanc a oedd â materion iechyd meddwl difrifol, mae hyn yn dangos ymateb da i anghenion lleol.


## Crynodeb

*Yn gyffredinol, roedd gwaith i leihau aildroseddu'n foddhaol.* Roedd asesiadau a chynlluniau'n dda, gyda chynlluniau'n ystyrlon i blant a phobl ifanc. Mewn cyferbyniad, roedd contractau gorchymyn atgyfeirio'n wael. Roedd cynlluniau mewn achosion carcharol glo gyda chydbwysedd priodol rhwng anghenion y sefydliad a'r ffactorau a all leihau aildroseddu mewn achosion unigol. Roedd Adroddiadau Cyn Dedfrydu o ansawdd uchel ac yn gryno. Roedd gweithwyr achos gyda mynediad at ystod eang o ymyriadau, y gwnaethant eu cyflwyno'n dda; ond ni roddwyd sylw digonol bob amser i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall y gwaith. Roedd gwaith ar y cyd gyda'r Ymddiriedolaeth Prawf yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r rhai a oedd yn symud i wasanaethau oedolion. Roedd angen gwella ar y dull o rannu gwybodaeth rhwng CAMHS a rheolwyr achos

gwybodaeth. Cymerwyd camau priodol gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i fynd i’r afael ag anghenion y rhai oedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu nad oedd yn derbyn ETE.

## Crynodeb Data

Mae’r siart canlynol yn crynhoi data o rai o’r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod arolygiad o’r achosion. [NB: arolygwyd 23 o achosion. Fodd bynnag, efallai na fydd cyfanswm yr atebion yn cyfateb i hyn, gan na fyddai pob cwestiwn yn berthnasol i bob achos]



# Thema 2: Amddiffyn y cyhoedd

**Beth rydym yn disgwyl ei weld**

Mae dioddefwyr, a dioddefwyr posibl, o drosedd gyda'r hawl i ddisgwyl y gwneir popeth posibl i reoli'r risg o niwed a berir gan blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Rydym yn disgwyl gweld asesu a chynllunio o ansawdd da drwy ddarparu ymyriadau addas, arweinyddiaeth gadarn, rheolaeth effeithiol a gwaith partneriaeth sy'n lleihau'r risg o niwed i eraill.

**Sgôr asesu achos**

O fewn yr asesiad achos, yn gyffredinol roedd 71% o'r gwaith o amddiffyn y cyhoedd wedi'i wneud yn ddigon da.

**Canfyddiadau allweddol**

1. Roedd Adroddiadau Cyn Dedfrydu (PSRs) yn cynnwys asesiad addas o risg o niwed i eraill.
2. Roedd dull gwaith amddiffyn y cyhoedd yn anghyson.
3. Nid oedd Trefniadau Aml-Asiantaeth ar MAPPA wedi'u deall yn iawn.
4. Roedd cynllunio'n ddigonol mewn ychydig o dan dri chwarter yr achosion, ond gyda digon le i wella.
5. Roedd ymyriadau a ddarparwyd i reoli'r risg o niwed i eraill fel arfer yn gyson ag anghenion yr achos.
6. Dylid rhoi mwy o sylw i anghenion y dioddefwyr, er bod y dioddefwyr a oedd â rhan yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn siarad yn gadarnhaol amdano.
7. Gallai'r cyfarfod rheoli risg mewnol a goruchwyliaeth gan y rheolwyr fod yn fwy effeithiol.
8. Nid oedd adolygiadau bob tro'n cael eu cynnal yn dilyn digwyddiadau arwyddocaol.
9. Roedd cyfle i wneud defnydd ehangach o swyddog heddlu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

**Esboniad o'r canfyddiadau**

**1. Asesiad**

1.1. Roedd ychydig o dan dri chwarter o'r asesiadau o'r risg o niwed i eraill yn ddigon da. Y prif faes ar gyfer gwella oedd bod ymddygiad perthnasol arall wedi'i anwybyddu, gan gynnwys ymddygiad a ddigwyddodd ychydig o flynyddoedd yn ôl ond a oedd yn amlwg yn rhan o batrwm parhaus. Nid oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i ddioddefwyr gwirioneddol neu ddioddefwyr posibl.

1.2. Roedd adolygiadau o risg o niwed i eraill yn ddigonol mewn ychydig o dan ddwy ran o dair o'r achosion. Fel gyda'r gwaith o leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu, y rheswm mwyaf cyffredin dros annigonolrwydd oedd nad oedd digwyddiadau o bwys yn cael eu cydnabod fel rhai oedd yn sbardun ac y dylid eu hadolygu. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bellach yn gweithredu mewn hinsawdd lle mae

safonau cenedlaethol ar gyfer adolygiadau ffurfiol yn digwydd yn llai aml. Felly, mae hyd yn oed yn fwy pwysig bod yr angen am adolygiad yn cael ei gydnabod yn dilyn digwyddiadau arwyddocaol.

1.3. Roeddem yn falch o ganfod bod pob un ond un Adroddiad Cyn Dedfrydu yn cynnwys asesiad priodol o risg o niwed i eraill.

1.4. Ar y cyfan, rydym wedi canfod dull anghyson o waith risg o niwed, gyda rhai staff yn amlwg yn deall ac yn gweithio yn ôl egwyddorion sylfaenol o waith amddiffyn y cyhoedd tra bod eraill yn canolbwyntio gormod ar arweiniad, prosesau neu ddosbarthiad, a oedd weithiau wedi dyddio neu ddim yn ddefnyddiol. Gwnaethom nodi rhywfaint o densiwn rhwng gwaith amddiffyn y cyhoedd a ffocws ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc - pan gaiff ei wneud yn dda, dylai gwaith amddiffyn y cyhoedd hefyd leihau siawns y plentyn neu'r person ifanc o fod yn agored i niwed.

1.5. Pan ofynnwyd, mynychodd staff iechyd gyfarfodydd a chyfrannu at asesiadau risg o niwed i eraill, gan gyfrannu at eu harbenigedd ar iechyd meddwl/camddefnyddio sylweddau/iaith a lleferydd.

## 2. Cynllunio ar gyfer ymyriadau

2.1. Roedd cynllunio ar gyfer gwaith i reoli risg o niwed i eraill yn ddigonol mewn llai na thri chwarter o'r achosion lle'r oedd angen hyn. Y rheswm mwyaf cyffredin dros yr annigonolrwydd oedd nad oedd digon o sylw wedi ei roi i broblemau dioddefwyr, ac weithiau nid oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i botensial MAPPA i gyfrannu at reoli'r achos.

2.2. Roedd y rhan fwyaf o gynlluniau yn cyfeirio at y camau sydd eu hangen. Fodd bynnag, roedd eu cyflwyniad yn aml yn fformiwläig ac wedi'u cyflwyno yn nhermau prosesau safonol a fyddai'n cael eu gwneud beth bynnag. Nid oeddent yn gweithio'n effeithiol fel modd o gyfathrebu cynllun clir a manwl i bawb y byddai angen gwybod amdano, lle byddai pawb yn glir ynghylch y rhan roedd ganddynt i'w chwarae a phan oedd angen iddynt wneud hynny. Roedd angen mwy o ystyriaeth ynghylch sicrhau bod rhan wrth gefn y cynllun yn cynnwys camau gweithredu manwl. Roedd bron i hanner yr adolygiadau o gynlluniau yn annigonol, fel arfer oherwydd nad oedd yr adolygiad wedi'i wneud ar yr adeg pan benderfynwyd y byddai ei angen.

2.3. Roedd yn amlwg bod gwybodaeth ymarferol fanwl o MAPPA, dealltwriaeth glir o'r trothwyon ar gyfer cyfeirio achosion Categori 3, ac roedd dealltwriaeth o fanteision posibl ymgysylltu ffurfiol neu anffurfiol gyda MAPPA yn anghyson ar draws y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Un enghraifft oedd barn a fynegwyd weithiau bod trothwyon MAPPA yn uchel; tra bod y dystiolaeth yn dangos nad oedd y proffil MAPPA yng Ngogledd Cymru yn uchel. Mae cydlynydd MAPPA Gogledd Cymru wedi cynnig darparu hyfforddiant i staff o asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol, gan gynnwys Timau Troseddau Ieuenctid, ac roedd rhai Timau Troseddau Ieuenctid eraill yng Ngogledd Cymru eisoes wedi manteisio ar y cyfle gwerthfawr hwn.

2.4. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi cryfhau ei waith uniongyrchol gyda dioddefwyr. Pryd bynnag y gellir cysylltu â'r dioddefwr, mae gweithiwr y dioddefwr yn ceisio cynnal asesiad effaith o brofiad y dioddefwr i lywio gwaith y rheolwyr achos. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod cynllunio rheoli risg yn cael ei lywio'n llawn ac yn gyson gan bryderon dioddefwyr.

## 3. Ymyriadau a gyflawnwyd

3.1. Mewn dros dri chwarter o'r achosion, roedd y camau a gymerwyd mewn gwirionedd i reoli risg o niwed i eraill yn gyson â'r asesiad a'r cynllun gwaith yn yr achos. Yn wir, yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae'r gwaith a wnaed wedi bodloni anghenion yr achos, p'un a oedd wedi cael ei adlewyrchu yn y cynllunio ai peidio.

3.2. Weithiau nid oedd adolygiadau o asesiadau a chynlluniau yn adlewyrchu newidiadau sylweddol yn yr achos. Fodd bynnag, o ddydd i ddydd, roedd y camau gwirioneddol a gymerwyd yn ddigonol mewn mwy na thri chwarter o'r achosion. Roedd yr achosion lle nad oedd hyn yn ddigon da weithiau yn rhai lle'r oedd y risg o niwed yn gwaethygu. Yn benodol, roedd angen i reolwyr achos fod yn fwy ymwybodol o botensial atgyfeirio at MAPPA yn hwyrach ymlaen yn ystod y ddedfryd, wrth i amgylchiadau newid.

3.3. Roedd ymyriadau wedi'u targedu gan y nyrs CAMHS a gweithiwr camddefnyddio sylweddau i fynd i'r afael ag anawsterau penodol, er enghraifft, rheoli dicter neu ddefnyddio mephedrone[1], yn helpu i leihau'r risg o niwed i eraill.

## 4. Canlyniadau cychwynnol

4.1. Fe wnaethom gyfarfod â thri dioddefwr o droseddu gan blant a phobl ifanc. Siaradodd pob un yn gadarnhaol am y gefnogaeth a gawsant gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a dywedasant y byddai'r gweithiwr dioddefwr yn bersonol yn ceisio eiriol ar eu rhan gyda'r heddlu, cymorth i ddioddefwyr ac asiantaethau eraill er mwyn eu galluogi i deimlo'n fwy diogel.

4.2. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod hyn yn digwydd oherwydd yr ymgysylltiad uniongyrchol rhwng y gweithiwr dioddefwr a'r dioddefwyr, yn hytrach nag o ganlyniad i asesu a chynllunio priodol yn yr achos. At ei gilydd, roedd y risg o niwed i ddioddefwyr gwirioneddol neu bosibl wedi cael ei rheoli'n ddigon da mewn llai na hanner yr achosion lle'r oedd hyn yn ofynnol, yn bennaf oherwydd nad oedd eu hanghenion wedi cael eu cydnabod yn yr asesiad a'r cynllunio.

4.3. Yn bennaf o ganlyniad i hyn, ac oherwydd diffygion eraill mewn cynllunio ac asesu fel y disgrifir mewn paragraffau blaenorol, ar y cyfan nid oedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gwneud digon i gadw risg yr unigolyn o wneud niwed i eraill mor isel â phosibl mewn bron i un rhan o dair o'r achosion.

## 5. Arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth

5.1. Nid oedd yr un achos a arolygwyd angen atgyfeiriad at MAPPA yn ystod yr asesu a chynllunio cychwynnol. Fodd bynnag, adroddwyd gan gydlynydd MAPPA ac eraill, pan oedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gwneud atgyfeiriad at MAPPA, roedd ymgysylltu mewn cyfarfodydd MAPPA a oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc wedi bod yn dda; er bod y cydlynydd wedi dweud hefyd tra bod y rhan fwyaf o sefydliadau yn mynychu'r rhain gyda rheolwr achos ac aelod o'r Tîm Rheoli,

[1] 'Anterth cyfreithlon' yw Mephedrone sy'n aml yn cael ei adnabod wrth y llysenw 'MCAT'

roedd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam fel arfer yn dod â gr□p mwy o staff. Ystyriwyd bod hyn yn ddiangen.

5.2. Nid oedd unrhyw fan cyswllt unigol hysbys ar gyfer materion MAPPA o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol eraill yn mabwysiadu'r dull hwn er mwyn gwella ansawdd y rheolaeth weithredol o gwmpas MAPPA, cynyddu'r ymdeimlad o ymgyfarwyddo â'r prosesau ac yn cefnogi cysondeb mewn presenoldeb mewn cyfarfodydd MAPPA. Rydym yn argymell bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ystyried dull tebyg.

5.3. Mae'r defnydd o swyddog yr heddlu yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn effeithiol, ac yn unol fwy neu lai â chanllawiau cyfredol. Fodd bynnag, mae Timau Troseddau Ieuenctid yn cael eu hannog i ddefnyddio'r sgiliau penodol mae swyddog yr heddlu yn ei gyfrannu at y tîm. Gall un rôl o'r fath gynnwys darparu man cynghori staff eraill ar gyfer achosion a ystyriwyd i fod yn risg uwch (naill ai bod yn agored i niwed, risg o achosi niwed i eraill neu'r tebygolrwydd o aildroseddu) i ystyried pa adnoddau eraill gan yr heddlu y gellir eu defnyddio i helpu i ddelio gyda'r risg honno. Yn Wrecsam, nid oedd rheolwyr achos yn cynnwys swyddog yr heddlu fel mater o drefn mewn achosion o'r fath ac nid oedd y swyddog yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn Cyfarfodydd Rheoli Risg

5.4. Swyddogaeth allweddol arall yw cefnogi camau torri amodau, nail ai'n uniongyrchol neu drwy ymgysylltu â chydweithwyr o'r heddlu ac adrannau, lle bo angen hyn. Tra cafwyd tystiolaeth o ymgysylltu da â thimau heddlu cymdogaeth leol, a heddlu eraill i ddelio â materion penodol eraill, nid oedd unrhyw atgyfeiriad o achosion torri amodau fel mater o drefn, lle'r oedd y plentyn neu'r person ifanc yn destun gwarant, i swyddog heddlu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid weithredu arno.

**Enghraifft o achos**

Cyhoeddwyd gwarant (heb fechnïaeth) am beidio â chydymffurfio â gorchymyn a oedd wedi bodoli am chwe wythnos cyn yr arolygiad, ac eto nid oedd cofnod o unrhyw ymgais yn cael ei wneud i geisio cadw'r person ifanc er gwaethaf y ffaith bod ganddynt syniad ym mhle roedd. Roedd y person ifanc hwn hefyd yn agored i niwed, a oedd yn ei wneud yn bwysicach fyth i weithredu'n gynnar.

5.5. Roedd y GCI yn defnyddio fforwm Cyfarfod Rheoli Risg a oedd yn ceisio darparu goruchwyliaeth gadarn o achosion a aseswyd fel Risg uchel o Niwed Difrifol i eraill. Roedd hwn yn syniad ardderchog. Fodd bynnag, er bod rhywfaint o dystiolaeth bod y drafodaeth yn y cyfarfod hwn yn werthfawr i reoli'r achos, yn gyffredinol nid oeddem yn ystyried bod y fforwm yn gweithio'n effeithiol. Er enghraifft, roedd canlyniadau o'r cyfarfod yn aml yn aneglur, yn ogystal â pha mor aml roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal - mewn rhai achosion fe wnaethom ddod o hyd i fwlch hir iawn rhwng cyfarfodydd. Pan roddwyd sylwadau am asesiadau neu gynlluniau rheoli risg, nid oedd proses gadarn ar waith i sicrhau eu bod yn cael sylw. Roedd y sylwadau a wnaed i ni yn nodi bod y drafodaeth yn canolbwyntio'n ormodol weithiau ar briodoldeb dosbarthiad ac os oedd cyfarwyddyd yn cael ei ddilyn yn iawn, yn hytrach na thrafodaeth yn fwy agored ynghylch a oedd y pethau iawn yn cael ei wneud yn yr achos. Nid oeddem yn meddwl bod rôl y cyfarfod hwn yn cael ei deall yn glir gan yr holl staff.

5.6. At ei gilydd, nid oedd goruchwyliaeth rheolwyr o waith risg o niwed yn effeithiol mewn bron i hanner yr achosion lle'r oedd angen hyn. Mewn rhai achosion, roedd

hyn oherwydd nad oedd goruchwyliaeth wedi ei darparu pan oedd ei hangen, ond y prif reswm oedd nad oedd diffygion mewn asesu a chynllunio wedi cael eu trin yn ddigonol.


5.7. Roeddem yn falch o weld bod gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bolisi a gweithdrefnau clir ar gyfer rheoli risg o niwed i eraill, a oedd yn cael ei ddeall gan staff. Os gweithredir yn gadarn, dylai hyn arwain at welliant cyflym yn yr agwedd hon ar waith.

**Crynodeb**

*At ei gilydd, roedd gwaith i amddiffyn y cyhoedd a dioddefwyr gwirioneddol neu bosibl yn foddhaol*. Roedd darnau unigol o waith yn aml yn bodloni anghenion yr achos penodol, er byddai cynlluniau yn elwa o fod yn llawer cliriach. Pan oedd y gweithiwr achos wedi cynllunio y byddai rhywbeth yn cael ei wneud, roeddent yn ei gyflawni. Fodd bynnag, roedd y cryfderau hyn yn cuddio ymagwedd anghyson tuag at waith risg o niwed. Gwnaethom nodi rhywfaint o densiwn rhwng y gwaith o amddiffyn y cyhoedd a ffocws ar anghenion y plentyn neu’r person ifanc - pan fydd yn cael ei wneud yn dda dylai gwaith amddiffyn y cyhoedd hefyd leihau perygl y plentyn neu’r person ifanc o fod yn agored i niwed. Byddai’r gwaith hwn hefyd yn elwa ar well dealltwriaeth o MAPPA. Nid oedd digon o ffocws yn cael ei roi i ddioddefwyr hysbys. Roedd gwaith targedu o ansawdd da gan CAMHS a gweithwyr camddefnyddio sylweddau i fynd i’r afael â’r risg o niwed i eraill.

## Crynodeb Data

Mae’r siart canlynol yn crynhoi data o rai o’r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod arolygiad o’r achosion. [NB: arolygwyd 23 o achosion. Fodd bynnag, efallai na fydd cyfanswm yr atebion yn cyfateb i hyn, gan na fyddai pob cwestiwn yn berthnasol i bob achos]



# Thema 3: Amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc

**Beth rydym yn disgwyl ei weld**

P'run a yw plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn ganlyniadau eu hymddygiad eu hunain neu ymddygiad eraill, rydym yn disgwyl gweld eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel a bod y perygl o fod yn agored i niwed yn cael ei leihau. Dylai hwn fod yn asesiad a chynllunio trylwyr o ansawdd da gydag ymyriadau addas, arweinyddiaeth a rheolaeth gadarnhaol, a chyfraniad effeithiol at drefniadau amddiffyn plant aml-asiantaeth.

**Sgôr asesu achos**

O fewn yr asesiad achos, yn gyffredinol roedd 78% o'r gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc a lleihau y perygl o fod yn agored i niwed wedi'i wneud yn ddigon da.

**Canfyddiadau allweddol**

1. Roedd asesiadau'n dda ond roedd angen cynnal adolygiadau yn fwy aml yn dilyn newidiadau sylweddol.
2. Mae'r defnydd o'r Therapydd Iaith a Lleferydd yn ardderchog, ond mae angen gwneud mwy i asesu gweithrediad deallus.
3. Roedd cynllunio a darparu ymyriadau'n cwrdd ag anghenion yr achosion.
4. Ni roddir digon o ystyriaeth i iechyd corfforol.
5. Mae perthnas hir sefydledig gyda gwasanaethau cymdeithasol plant ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod gwaith ar y cyd yn cael ei gofnodi'n well a bod swyddogaethau'n cael eu deall.
6. Mae paneli Adleoli a Throsglwyddo'n fentrau cadarnhaol.
7. Gallai goruchwyliaeth y rheolwyr fod yn fwy effeithiol.
8. Mae ffocws clir a chadarn ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc.

**Esboniad o'r canfyddiadau**

**Asesiad**

1.1. Roedd dros dri chwarter o asesiadau o fod yn agored i niwed yn ddigon da, er ar adegau nid oedd yr asesiad wedi cydnabod a chasglu'r ehangder o ffactorau bod yn agored i niwed a oedd yn bodoli yn yr achos. Fodd bynnag, nid oedd adolygiadau o asesiadau a chynlluniau'n cael eu cynnal weithiau yn ôl yr angen - yn aml nid oedd y rheolwr achos wedi cydnabod yr angen i wneud hyn yn dilyn newid sylweddol mewn amgylchiadau.

1.2. Mae'r mwyafrif helaeth o Adroddiadau Cyn Dedfrydu yn cynnwys asesiad clir a thrylwyr o anghenion bod yn agored i niwed a diogelu. Mae'r eglurder hwn wedi cael ei helpu gan y pwyslais ar wneud Adroddiadau Cyn Dedfrydu'n fwy cryno a chael gwared ar elfennau diangen o hanes y plentyn neu berson ifanc.

1.3. Ni welwyd unrhyw achosion lle cafwyd asesiad o weithredu deallusol. Roedd gwybodaeth mewn rhai achosion yn awgrymu y gallai anabledd dysgu anhysbys fod yn bresennol. Mae plant a phobl ifanc yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam yn cael y fantais o SALT i asesu eu dealltwriaeth, ond nid yw hyn yn cyfateb i asesiad llawn o weithredu deallusol gan gynnwys y gallu i resymu a chofio. Mae ffactorau o'r fath yn hanfodol bwysig mewn perthynas â bod yn agored i niwed ac i lywio gwaith i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Rydym yn awgrymu y dylai asesiad gynnwys yr ystyriaeth a allai anabledd dysgu anhysbys fod yn bresennol. Yna dylid mabwysiadu protocol ar gyfer staff i gyfeirio achosion o'r fath i'r SALT am asesiad ac yna, os yw'n briodol, i CAMHS am asesiad gan y Tîm Anableddau Dysgu.

## 2. Cynllunio ar gyfer ymyriadau

2.1. Roedd cynllunio yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer gwaith i fynd i'r afael ag anghenion diogelu ac i leihau perygl bod yn agored i niwed y plentyn neu'r person ifanc yn ddigon da ym mron pob achos, er y gallai cynlluniau yn aml fod yn gliriach ac yn fwy manwl gywir. Fodd bynnag, mewn un rhan o dair o achosion perthnasol, ni roddodd y cynlluniau ddigon o ystyriaeth i anghenion iechyd corfforol.

2.2. Yn gyffredinol, fe wnaethom ganfod perthynas waith a oedd wedi'i sefydlu'n dda rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac adrannau o fewn gwasanaethau cymdeithasol plant ac yn arbennig rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Tîm Gadael Gofal. Os oedd unrhyw broblemau'n codi, fe wnaethom weld bod y rhain yn cael eu datrys yn anffurfiol fel arfer heb yr angen i droi at wneud y mater yn fwy difrifol. Dywedodd y staff eu bod yn hyderus yngl□n â'u gallu i herio ei gilydd yn adeiladol ac os oedd angen, gallent gyfeirio'r materion lle'r oedd anghytundeb proffesiynol am achos neu benderfyniad achos, fel anghydfod trothwy neu gau achos at lefel uwch. Mae'r berthynas yn golygu bod y problemau fel pe baent yn cael eu datrys yn bennaf rhwng gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr achos neu ar lefel rheolwr tîm.

**Perthynas waith agos gyda'r Tîm Gadael Gofal**

Fe wnaeth y staff a gafodd gyfweliad amlygu'n arbennig y perthnasau gwaith agos rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Tîm Gadael Gofal. Roedd staff yn hyderus bod eu swyddogaethau priodol yn cael eu deall a bod ymyriadau'n cael eu cydlynu. Fel esiampl o hyn: mewn un achos roedd y cynllun llwybr yn mynd i'r afael â'r trefniadau gadael gofal ond hefyd yn ymgorffori'n benodol yr amcanion a oedd yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i leihau aildroseddu.

2.3. Nid oedd bob tro'n bosibl gweld pa mor effeithiol oedd y cyfathrebu rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a thimau eraill, gan nad oedd wedi'i adlewyrchu'n dda yng nghofnodion asesiadau, cynlluniau neu gofnodion dyddiadur y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd problemau yn cynnwys: diffyg cronoleg gynhwysfawr a oedd yn golygu nad oedd bob tro'n hawdd gweld pa gynnydd a wnaed mewn achos; roedd tystiolaeth annigonol ar ffeiliau achos yn y ddau wasanaeth a oedd yn rhannu asesiadau a chynlluniau wedi'u halinio i ddiwallu anghenion cyfannol y plentyn neu'r person ifanc yn hytrach na'r rhai hynny a oedd yn ymwneud ag anghenion y 'broses' unigol o wasanaethau a oedd yn llunio'r ddogfen; a diffyg eglurder a oedd

asesiadau'n cael eu rhannu'n briodol unwaith y cawsant eu cwblhau ai peidio. Yn yr un modd, nid oeddem bob tro'n gallu gweld y cyfraniad a wnaed gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid at yr asesiadau craidd, er ein bod yn ymwybodol bod newidiadau i'r templed asesiad craidd i wneud cyfraniadau gan bartneriaid yn fwy penodol yn mynd rhagddynt.

2.4. Mae'r dull ar y cyd o gynllunio adleoli (gwneud trefniadau ar gyfer gadael gofal a/neu ryddhau o'r ddalfa) a gymerwyd gan y Tîm Gadael Gofal a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ymddangos i fod yn ddull cadarnhaol at ddelio â rhai o'r gwaith mwyaf heriol a wynebir gan y ddau dîm. Yn yr un modd, roedd y Panel Trosglwyddo a oedd yn ymdrin ag anawsterau sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc a leolir yn Wrecsam gan awdurdodau eraill, yn fenter bragmatig ac yn gadarnhaol. Gwelsom y panel hwn fel ymgais glir i reoli'r risgiau a'r cymhlethdodau o anghenion a gyflwynwyd gan nifer o'r plant a'r bobl ifanc hyn.

## 3. Darparu ymyriadau

3.1. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi cyflawni'r ymyriadau a oedd yn ofynnol drwy gydol y ddedfryd i fynd i'r afael ag anghenion diogelu a lleihau perygl bod yn agored i niwed. Mewn tri chwarter o'r achosion y cafwyd ymyriadau, roeddent yn gyson â'r asesiad a'r cynllun - lle nad oeddent yn hyn, roedd o ganlyniad i ddiffygion yn yr asesiad neu'r cynllunio.

**Enghraifft o Achos**

Roedd rhianta gwael a defnyddio cyffuriau yn golygu nad oedd Charlie yn cael y cymorth roedd ei angen i fynychu apwyntiadau CAMHS yn yr ysbyty. Aeth y rheolwr achos â Charlie at ei apwyntiadau ac aros y tu allan amdano, ac yna trefnodd apwyntiadau Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn agosach at ei gartref gan na fyddai ei fam yn darparu arian am docynnau bws.

3.2. Fe wnaethom nodi fod crynodebau cau yn cael eu cwblhau gan y gwasanaethau cymdeithasol i blant ar ddiwedd eu cyfranogiad mewn achos, gan gynnwys y rhai lle'r oedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cymryd rhan, a bod archwiliadau yn cael eu cynnal gan reolwyr y gwasanaethau cymdeithasol i blant wrth ddod i ben. Fodd bynnag, byddai'r rhain yn elwa o gael mwy o fanylion ynglŷn â pham y gwnaed y penderfyniad i gau cyfranogiad, ochr yn ochr â mwy o eglurder ynghylch materion a oedd yn weddill a disgwyliadau y cytunwyd arnynt gydag asiantaethau partner, fel y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a oedd yn parhau i weithio gyda'r teulu.

3.3. Roedd y staff iechyd yn gweithio'n agos gydag eraill, yn enwedig rheolwyr achos, i amddiffyn plant a phobl ifanc a lleihau eu perygl o fod yn agored i niwed. Roedd rhwyddineb mynediad o ganlyniad i'w cydleoliad a'u perthynas waith dda yn hwyluso cyfathrebu dyddiol.

## 4. Deilliannau Cychwynnol

4.1. At ei gilydd, roedd rheoli anghenion diogelu a bod yn agored i niwed gan y rheolwr achos yn ddigon gweithredol ac effeithiol drwy gydol y ddarpariaeth o ymyriadau yn y mwyafrif helaeth o achosion a arolygwyd gennym.

4.2. Roedd goruchwyliaeth gan reolwyr yn effeithiol mewn ychydig dros hanner yr achosion lle'r oedd angen hynny. Lle nad oedd yn effeithiol, roedd cyfuniad o resymau - yn enwedig diffygion mewn asesu a chynllunio nad oedd yn cael sylw ac mewn rhai achosion, nid oedd goruchwyliaeth wedi digwydd pan oedd ei hangen. Yn yr achosion hyn, gallai defnydd effeithiol o systemau TG fod wedi tynnu sylw'r rheolwr at yr angen i ddarparu goruchwyliaeth.

4.3. Ym mhob achos, roeddem o'r farn bod gan y rheolwr achos ddigon o fynediad at yr adnoddau roeddent eu hangen i fynd i'r afael ag anghenion diogelu a lleihau perygl bod yn agored i niwed.

## 5. Arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth

5.1. Roedd gweithio'n gyffredinol mewn partneriaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gyda'r heddlu yn gryfder, gyda chyfranogiad da ar lefel partneriaeth strategol leol gyda Phennaeth y Gwasanaeth, a chyfranogiad gweithredol ar lefel rheoli gweithredol yn yr is-grwpiau. Roedd cyfranogiad yn arbennig o weithredol mewn grwpiau ar gam-drin yn y cartref, ymdrin â thrais rhywiol a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant (CSE). Roedd staff GCI yn ymwybodol o'r broses leol ar gyfer atgyfeirio unrhyw bryderon am CSE.

5.2. Roedd ethos cadarnhaol a rannwyd fod yr holl wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc 'fel un' a bod y ffocws bob amser ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Fe wnaethom weld bod yr holl staff yn dangos ffocws ar y plentyn neu'r person ifanc a rhoddwyd gwasanaethau ar waith i gynnal diogelwch plant a phobl ifanc.

5.3. Pan godwyd problemau gyda'u rheolwyr, nid oedd y canlyniad bob amser yn cael ei adlewyrchu yn y ffeil ac nid oedd y cyfiawnhad dros benderfyniadau'n cael ei gofnodi bob amser. Mae her broffesiynol yn adeiladol ac yn hyrwyddo trylwyredd wrth wneud penderfyniadau, ond mae'n bwysig bod y penderfyniadau yn cael eu cofnodi a bod y staff yn cael adborth clir os yw perthynas waith dda yn cael ei chynnal rhwng timau.

5.4. Mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad cyflymach at wasanaethau arbenigol CAMHS os ydynt yn cael eu cyfeirio drwy'r ymgynghorydd CAMHS neu nyrs sy'n gweithio o fewn y tîm Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Daethpwyd i'n sylw nad oedd rhai plant neu bobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl sylweddol yn gallu cael mynediad at CAMHS, oherwydd eu rhestr aros, nes eu bod yn troseddu. Gwelwyd achosion lle gwnaethpwyd atgyfeiriadau yn flaenorol drwy addysg neu staff y gwasanaethau cymdeithasol i blant, a sawl mis wedi mynd heibio heb iddynt gael apwyntiad cychwynnol.

5.5. Roedd y gweithwyr camddefnyddio sylweddau wedi'u hyfforddi'n dda i gael y newyddion diweddaraf am gyffuriau synthetig sy'n dod i'r amlwg ac roeddent yn rhan o In2change, tîm cyffuriau ac alcohol pobl ifanc Wrecsam.

**Sylw gan riant/gofalwr**


*"roedd fy merch wedi disgyn drwy'r rhwyd, dim ond pan droseddodd y cafodd hi'r cymorth roedd ei angen, ond mae'n rhy hwyr erbyn hyn...mae hi wedi troseddu...dywedwyd wrthym nad oedd dim o'i le pan oedd hi'n iau...ond ni all ddweud yr amser hyd yn oed, neu ddarllen ac ysgrifennu...rhoddodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid y llais roeddwn ei angen o'r diwedd, cysylltwyd â CAMHS, cafodd ddiagnosis o'r diwedd ac fe gafodd gymorth".*

**Crynodeb**

*Yn gyffredinol, roedd gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc a lleihau eu perygl o fod yn agored i niwed yn foddhaol.* Roedd staff o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn eiriolwyr effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd asesu a chynllunio yn gyffredinol yn cwrdd ag anghenion yr achosion a gwnaed y gwaith cywir o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a'u bod yn llai agored i niwed. Roedd y gwaith i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn dda ac roedd gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid berthynas gadarnhaol gyda CAMHS. Roedd angen gwaith i sicrhau bod cyfathrebu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol plant yn effeithiol bob tro, er bod gwaith ar y cyd gyda'r tîm gadael gofal yn gryf. Gweithiodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam gyda nifer sylweddol o blant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal ac a leolwyd yn Wrecsam o fannau eraill. Maent yn rhagweithiol wrth geisio sicrhau bod yr anawsterau penodol a achoswyd gan hyn yn cael eu cydnabod a'u goresgyn.

**Crynodeb Data**

Mae’r siart canlynol yn crynhoi data o rai o’r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod arolygiad o’r achosion. [NB: arolygwyd 23 o achosion. Fodd bynnag, efallai na fydd cyfanswm yr atebion yn cyfateb i hyn, gan na fyddai pob cwestiwn yn berthnasol i bob achos]



# Thema 4: Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni

**Beth rydym yn disgwyl ei weld**

Dylai plant a phobl ifanc gyflawni eu dedfrydau yn ôl bwriad y llys. Rydym yn disgwyl y bydd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus drwy ymgysylltu'n effeithiol â nhw a'u teuluoedd, gan ymateb i ffactorau amrywiaeth perthnasol gan gynnwys talu sylw i'w hiechyd a'u lles, a chymryd camau priodol os nad ydynt yn cydymffurfio.

**Sgôr asesu achosion**

O fewn yr asesiad achos, yn gyffredinol roedd 83% o waith i sicrhau bod y ddedfryd a gyflawnwyd yn ddigon da.

**Canfyddiadau Allweddol**

1. Roedd asesiad o ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu yn dda, gyda chynlluniau ar waith ac wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â'r rhain.
2. Fe wnaeth y SALT ddarparu gwasanaeth ardderchog a oedd yn cael ei werthfawrogi gan y staff a'r partneriaid.
3. Siaradodd plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn gadarnhaol am eu hymgysylltiad â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.
4. Roedd plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu asesiadau, Adroddiadau Cyn Dedfrydu a chynlluniau.
5. Roedd anhawster penodol i gymell merched a genethod ifanc i ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, heb yr hwn nid oedd gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid y cyfle i fynd i'r afael â'u troseddu.
6. Roedd gwaith partneriaeth gyda darparwyr ETE yn dda.
7. Gwnaed penderfyniadau priodol pan oedd angen camau gorfodi, ond nid oedd y panel cydymffurfio yn effeithiol.
8. Roedd y Panel Llongyfarch ac Adolygu yn ffordd wych o gadarnhau cynnydd ac annog gwell ymddygiad i barhau.

**Esboniad o'r canfyddiadau**

**1. Asesiad**

1.1 Roedd asesiad o ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu yn ddigon da yn y mwyafrif helaeth o achosion.

1.2 Roedd digon o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr i gynnal yr asesiad cychwynnol mewn ymhell dros dri chwarter o'r achosion. Roedd barn plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn amlwg mewn llawer o'r asesiadau a arolygwyd gennym. Fodd bynnag, roedd rhai achosion lle nad oedd digon o ymdrech wedi'i wneud i ymgysylltu â'r rhieni/gofalwyr.

1.3 Roedd y plentyn neu'r person ifanc a'r rhiant/gofalwr yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn y mwyafrif helaeth o adroddiadau cyn dedfrydu.

1.4 Rhoddodd yr Adroddiadau Cyn Dedfrydu ddigon o sylw i ffactorau amrywiaeth perthnasol a rhwystrau posibl i ymgysylltu. Mewn un Adroddiad Cyn Dedfrydu roedd asesiad trylwyr o anghenion dysgu person ifanc. Roedd hyn yn cynnwys adroddiad cynhwysfawr o asesiad iaith a lleferydd. Mae hyn yn nodi strategaethau i'r llys eu defnyddio i helpu'r person ifanc i ddeall proses y llys.

1.5 Holwyd y plentyn neu'r person ifanc am eu dewis ynghylch a oeddent yn dymuno gweithio yn defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg ym mhob achos a arolygwyd gennym.

1.6 Roedd gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fynediad at SALT hanner amser. Roedd hwn yn wasanaeth gwerthfawr iawn. Roedd y SALT yn gweithio'n agos gyda staff ac eraill, gan ddarparu asesiadau a chyngor ar sut i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn ffordd a oedd yn sicrhau dealltwriaeth dda. Gwnaeth y staff atgyfeiriad os oedd pryderon ynghylch lefelau o ddealltwriaeth. Cynhaliodd y SALT asesiad trylwyr a chynhyrchodd adroddiad manwl ac argymhellion yngl□n â chynorthwyo gyda chyfathrebu a dealltwriaeth. Ar gyfer un person ifanc yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, fe weithiodd y SALT yn agos gyda staff mewn cartref plant, mewn eraill roedd hi'n darparu hyfforddiant ac adnoddau i staff addysg.

## 2 Cynllunio ar gyfer ymyriadau

2.1 Rhoddodd Cynllunio ddigon o sylw i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu ym mhob achos ac eithrio dau. Mewn rhai enghreifftiau da, fe wnaeth gweithwyr y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid addasu cynlluniau i gwrdd ag anghenion dysgu plant a phobl ifanc.

2.2 Roedd y plentyn neu'r person ifanc a'r rhiant/gofalwr wedi cael eu cynnwys yn ddigonol yn y cynllunio yn y mwyafrif helaeth o achosion, fel bod y cynllun hefyd yn adlewyrchu eu barn ar flaenoriaethau ar gyfer lle'r oedd angen gwneud newid.

2.3 Wrth ofyn i blant a phobl ifanc lofnodi eu cynlluniau ymyrryd, byddai rheolwyr achos yn eu darllen yn uchel ac yn sicrhau eu bod yn deall. Byddai'r plentyn neu'r person ifanc yna'n llofnodi i gadarnhau bod y cynllun wedi cael ei darllen iddynt a'u bod yn ei ddeall.

2.4 Fe wnaeth y SALT ddatblygu strategaethau ymdopi defnyddiol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc eu hunain a hefyd fe wnaethant argymhellion i weithwyr proffesiynol eraill i helpu sicrhau y byddai eu dulliau o weithio yn llwyddiannus. Lle'r oedd y rhain yn briodol, cawsant eu hadlewyrchu yn y cynlluniau.

## 3 Darparu ymyriadau

3.1 Mewn dau o'r pedwar achos a arolygwyd ac a drosglwyddwyd o ardaloedd eraill, nid oedd gwaith ar y cyd yn effeithiol o ran sicrhau trosglwyddiad llyfn a pharhad cyflawni'r ddedfryd. Fodd bynnag, roedd hyn oherwydd diffygion yn y wybodaeth a ddarparwyd i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gwneud popeth o fewn rheswm i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn, drwy ei drosglwyddo o fewn Tîm Troseddau Ieuenctid cartref y plentyn neu'r person ifanc.

3.2 Ar y cyfan, roedd y plentyn neu'r person ifanc a'u rhiant/gofalwr neu unigolion arwyddocaol wedi cael chwarae rhan ystyrlon ac effeithiol drwy gydol y gwaith o gyflawni'r ddedfryd mewn ymhell dros dri chwarter yr achosion. Fodd bynnag, roedd ychydig o achosion o ferched neu enethod ifanc lle nad oedd digon o dystiolaeth bod digon o waith wedi'i wneud i'w cymell i gydymffurfio.

3.3 Gweithiodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dda gyda darparwyr ETE i wneud yn si□r y gallai plant a phobl ifanc yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, os oeddent eisiau hynny. Er enghraifft, lle trefnwyd tiwtora cartref, byddai'r awdurdod lleol yn dyrannu tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg.

**Enghraifft o achos**

Nid oedd Lee yn gallu dychwelyd i'w ysgol flaenorol oherwydd natur ei droseddu, ond roedd yn awyddus i sefyll ei arholiadau. Gweithiodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r awdurdod lleol gyda'i gilydd i gael hyd i ysgol cyfrwng Cymraeg addas iddo mewn awdurdod cyfagos gan nad oedd unrhyw ysgol arall addas yn Wrecsam.

3.4 Roedd y GCI hefyd yn gweithio yn weithredol gydag ystod eang o ddarparwyr ETE i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cyflawni eu llawn botensial. Roedd partneriaid yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r gefnogaeth a gawsant wrth eu helpu i reoli unrhyw risgiau posibl a berir gan y plant a'r bobl ifanc a oedd yn mynychu eu darpariaeth.

3.5 Roedd gwaith partneriaeth da gyda'r coleg lleol i gynyddu nifer y bobl ifanc a oedd â chefndiroedd troseddu a gafodd fynediad at ddarpariaeth coleg. Derbyniodd y coleg gyngor a chymorth da ar sut i gynnal asesiadau risg ar bobl ifanc a gyflwynodd risg uwch o niwed i eraill. Mae rhai pobl ifanc o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi symud ymlaen o'r coleg i gyflogaeth llawn amser.

3.6 Defnyddiodd y darparwyr eraill ddull fesul camau o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'u cael yn barod ar gyfer gwaith.

3.7 Gweithiodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn effeithiol gyda Gyrfa Cymru i sicrhau lleoedd ETE. Mewn un enghraifft dda, roedd y swyddog gyrfaoedd a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cefnogi person ifanc drwy bwyntiau o drawsnewid i mewn, drwy ac allan o'r ddalfa. Roedd y gwaith partneriaeth agos yn sicrhau trosglwyddiad llyfn allan o'r ddalfa i fan hyfforddi.

3.8 Mewn ychydig iawn o achosion, ni chafodd y plant a phobl ifanc yr addysg yr oeddent â'r hawl iddi. Dim ond ychydig o oriau bob wythnos roeddent yn ei gael, ac nid oedd hyn bob amser yn diwallu eu hanghenion addysgol. Roedd yr awdurdod lleol wedi bod yn rhy araf wrth drefnu darpariaeth amgen addas. Nid oedd cynlluniau i reoli disgyblion amharod i ddychwelyd i addysg yn ddigon cadarn bob amser. Er enghraifft, mewn un achos lle'r oedd staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gweithio'n galed i ailysgogi plentyn neu berson ifanc a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, roedd hyn yn cael ei roi mewn perygl gydag oedi wrth ei ailintegreiddio.

**Sylw gan blentyn neu berson ifanc**

"*Dwi jest isio nhw frysio a fy rhoi yn ôl yn yr ysgol..mae'r [ddarpariaeth dros dro] yn 's*!&' a does ganddyn nhw ddim clem yna, felly does gin i ddim mynadd mynd yna ddim mwy*".

3.9 Fe wnaeth staff cymorth gweinyddol gynorthwyo gwaith y rheolwr achos drwy anfon neges destun at bob plentyn a pherson ifanc a lle bo angen, eu rheini/gofalwyr hefyd, yn eu hatgoffa o'u hapwyntiadau yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Dywedodd un person ifanc wrthym "*ia, tydi'r negeseuon ddim yn rhoi esgus i chi beidio ag anghofio eich apwyntiad*".

**Sylw gan riant/gofalwr**

"*os ydynt yn anfon llythyr ato, nid ydw i'n cael ei agor a dwi ddim yn gwybod beth sy'n digwydd ac rwyf eisiau bod â mwy o ran*".

3.10 Fe wnaethom gyfarfod saith o blant a phobl ifanc a thri rhiant/gofalwr. Roedd pawb yn siarad yn gadarnhaol iawn am ansawdd y berthynas rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'u rheolwr achos. Roedd y plant a'r bobl ifanc yn teimlo bod rheolwyr achos yn ceisio gwrando arnynt ac yn eu deall.

## 4 Canlyniadau cychwynnol

4.1 Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi rhoi digon o sylw i iechyd a lles yn gyffredinol, gan y gallai'r rhain weithredu fel rhwystrau i ganlyniadau effeithiol, yn y mwyafrif o achosion.

**Panelau Adolygu a Llongyfarch**

Cafodd y rhain eu cadeirio gan reolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac roeddent yn cynnwys y rheolwr achos, y plentyn neu'r person ifanc, rhiant/gofalwr ac ynad o'r fainc ieuenctid lleol. Eu pwrpas oedd llongyfarch y plentyn neu'r person ifanc ar y cynnydd a wnaethant a chadarnhau sylfaen ar gyfer eu hymddygiad yn y dyfodol. Esboniodd y rheolwr achos pa waith a wnaed a pha gynnydd roedd y person ifanc wedi'i wneud. Yna fe wnaeth yr ynad ganolbwyntio ar y drosedd, y dioddefwyr a'r angen i gynnal cynnydd. Daeth y cyfarfod i ben drwy ysgwyd llaw gyda phawb oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Fe'i dilynwyd gan lythyr gan y Cadeirydd yn cadarnhau yr hyn a ddywedwyd. Roedd hyn yn cael ei werthfawrogi gan rieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc, nad oedd yn arfer cael canmoliaeth.

4.2 Roedd digon o sylw wedi'i roi, drwy gydol y ddedfryd, i nodi ac ymateb i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu mewn ymhell dros dri chwarter yr achosion. Roedd nifer fach o achosion lle nad oedd effaith bod yn agored i niwed y plentyn neu'r person ifanc ar y canlyniadau o'r achos wedi cael ei gydnabod ac nid oedd wedi derbyn sylw digonol.

4.3 Yn y mwyafrif helaeth o achosion, rhoddwyd digon o sylw i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac yn diwallu gofynion y ddedfryd. Fodd bynnag, roedd nifer o achosion o ferched a genethod ifanc lle y dylid bod wedi gwneud mwy. Oni bai eu bod wedi ymgysylltu â gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, nid oedd cyfle i fynd i'r afael ag achosion eu hymddygiad troseddol.

4.4 Nid oedd dros hanner y plant a phobl ifanc wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion y ddedfryd. Roedd y penderfyniadau a wnaed yn dilyn diffyg cydymffurfio yn briodol

ym mhob un ond un o'r achosion hyn. Fodd bynnag, pe bai mwy wedi cael ei wneud i sicrhau bod rhai merched a genethod yn cydymffurfio â'u dedfryd mae'n bosibl na fyddai angen iddynt ddychwelyd i'r llys ar ôl ei thorri.

4.5 Defnyddiodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Banel Cydymffurfio i geisio ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i ddeall y rhesymau dros eu diffyg cydymffurfio a rhoi strategaethau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i ymgysylltu yn y dyfodol. Roedd hwn yn syniad ardderchog, ond nid oedd panelau'n cael ei defnyddio'n effeithiol bob amser. Nid oedd digon yn cael ei wneud bob amser i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc a'u rhiant/gofalwr yn bresennol yn y panel. Roedd angen iddynt fod yn fwy clir ar y penderfyniadau a chamau gweithredu a ddeilliodd ohonynt, gyda chynlluniau gweithredu manwl a gadarnhawyd, yn ysgrifenedig os oedd yn bosibl, gyda'r plentyn neu'r person ifanc a'u rhiant/gofalwr.

4.6 Defnyddiwyd Panelau Adolygu a Llongyfarch fel dull cadarnhaol i gadarnhau ac atgyfnerthu cynnydd. Tra bod y rhain yn gweithio'n dda (gweler yr esiampl uchod), weithiau gellid rhoi mwy o gyfle i'r plentyn neu'r person ifanc esbonio beth roeddent yn feddwl roeddent wedi'i wneud yn dda.

4.7 Er nad oedd iechyd corfforol yn cael ei asesu fel mater o drefn, fe wnaeth y gweithwyr camddefnyddio sylweddau a'r nyrs CAMHS eu sgrinio iechyd eu hunain a chyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaethau priodol, er enghraifft y Siop Wybodaeth yn Wrecsam sy'n darparu cyngor iechyd rhyw a chyngor arall yn gyfrinachol. Rhoddodd y gweithwyr camddefnyddio sylweddau gyngor ar bob agwedd ar iechyd. Roeddent yn dechrau gwasanaeth dadansoddi sylweddau; fel y gallai plant a phobl ifanc gael dadansoddiad o sylweddau a gwybod am y sgil effeithiau tebygol.

**Sylw gan riant/gofalwr**

Rhoddodd un rhiant sylw defnyddiol bod gan y staff Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gyfrifoldebau hefyd i ddangos ymddygiad da gyda phlant a phobl ifanc– "*os nad ydynt yn cyrraedd ar amser* [i fynd ag ef i wneud iawn] *sut allant ddisgwyl i blentyn wneud hynny?*"

## 5 Arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth

5.1 Gwnaeth y SALT gyfraniad sylweddol tuag at sicrhau fod staff yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac yn allanol (er enghraifft, mewn lleoliadau addysg a chartrefi gofal) wedi'u hyfforddi i gydnabod ac ymateb yn briodol i broblemau iaith a chyfathrebu; fel bod y gyfran sylweddol o blant a phobl ifanc gyda'r anawsterau hyn yn cael asesiad o'u hanghenion a bod strategaethau priodol yn cael eu rhoi ar waith i'w rheoli. Fe wnaeth yr holl bartneriaid a staff siarad yn gadarnhaol am y gwasanaeth SALT.

**Enghraifft o achos**

Roedd Luis wedi byw mewn gwahanol rannau o'r byd cyn dod i'r Deyrnas Unedig. Cafodd ei gyfeirio at y SALT oherwydd ei anawsterau wrth geisio deall a mynegi ei hun yn Saesneg. Roedd y SALT yn pryderu rhag ofn mai caffael iaith oedd ei anawsterau. Felly, fe wnaeth asesiad pellach ar y cyd gydag arbenigwr Saesneg fel iaith ychwanegol, gan gymharu'r canlyniadau ac roedd yn gallu cadarnhau nad oedd yr anawsterau'n ymwneud â chaffael iaith. Roedd hyn yn werthfawr i helpu rheolwyr achos i ddeall sut i weithio ag ef.

5.2 Un esiampl o sut roedd y cysylltiadau gwell gyda gwasanaethau ieuenctid yn cael eu defnyddio'n effeithiol oedd defnyddio eu hadeilad ar gyfer gwaith gwneud iawn. Roedd hyn yn darparu mwy o berchnogaeth o'r gwneud iawn, gan ei fod yn cael ei wneud mewn cyfleusterau a oedd yn werthfawr i'r gymuned leol, ond roedd hefyd yn helpu'r plant a'r bobl ifanc i ymgysylltu â'r cyfleusterau roeddent yn debygol o ddod yn rhan o'u rhwydweithiau cefnogi yn y dyfodol.


**Crynodeb**

*Yn gyffredinol, roedd gwaith i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni'n dda*. Fe wnaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid elwa o'r manteision sylweddol o gael mynediad at SALT. Roedd hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol wrth weithio gyda rhai plant a phobl ifanc, fodd bynnag, roedd yr arian ar gyfer hyn dros dro ac roedd angen sylw brys i sicrhau bod effaith gadarnhaol hyn yn cael ei chadw. Roedd rheolwyr achos yn adeiladu perthynas gadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Roedd asesiad cywir a chamau gweithredu priodol i fynd i'r afael ag amrywiaeth a ffactorau eraill a allai weithredu fel rhwystrau i ymgysylltu. Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gweithredu dull cadarnhaol tuag at sicrhau bod cynnydd yn cael ei gydnabod a bod ymddygiad gwell parhaus yn cael ei annog. Lle'r oedd angen camau gorfodi, roedd y rhain yn bodloni anghenion yr achos, fodd bynnag, roedd angen gwaith i sicrhau bod merched a genethod ifanc yn ymgysylltu'n llawn â gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

## Crynodeb Data

Mae’r siart canlynol yn crynhoi data o rai o’r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod arolygiad o’r achosion. [NB: arolygwyd 23 o achosion. Fodd bynnag, efallai na fydd cyfanswm yr atebion yn cyfateb i hyn, gan na fyddai pob cwestiwn yn berthnasol i bob achos]

### Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni



# Thema 5: Llywodraethu a phartneriaethau

**Beth rydym yn disgwyl ei weld**

Mae trefniadau llywodraethu, partneriaeth a rheoli effeithiol yn eu lle. Mae'r bartneriaeth Tîm Troseddau Ieuenctid a'r Bwrdd Rheoli yn darparu llywodraethu effeithiol yn enwedig, i sicrhau bod amcanion cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol yn cael eu bodloni, a bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu, eu dioddefwyr a'r gymuned leol. Mae ffactorau cyfle cyfartal ac amrywiaeth ehangach yn cael eu blaenoriaethu drwy'r amser. Mae partneriaethau ar waith sy'n gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau canlyniadau effeithiol. Mae trefniadau rheoli'r gweithlu ar waith o fewn y Tîm Troseddau Ieuenctid sy'n galluogi staff i ddarparu ymgysylltiad o ansawdd a chyflawni canlyniadau effeithiol. Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn sefydliad sy'n dysgu sy'n adolygu ac yn arfarnu ansawdd ac effeithiolrwydd ei wasanaethau yn barhaus er mwyn gwella a chynnal canlyniadau cadarnhaol.

**Canfyddiadau allweddol**

1. Roedd presenoldeb gan bartneriaid statudol ym Mwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn wael; o ganlyniad nid oedd y bwrdd yn gallu cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Roedd camau'n cael eu cymryd i wella gwaith y Bwrdd Rheoli.
2. Nid oedd yr arian ar gyfer y SALT gwerthfawr wedi'i sicrhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol.
3. Roedd rheolwyr strategol ac eraill o fewn yr awdurdod lleol yn gweithio'n dda.
4. Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei gynrychioli'n dda ar y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (LSCB).
5. Nid oedd digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r iaith Gymraeg.
6. Roedd angen gwella cyfathrebu ar lefel rheolwr achos rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol plant, gan adeiladu ar waith a oedd eisoes yn cael ei wneud.
7. Roedd cyfleoedd hyfforddi a datblygu a goruchwylio'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan staff.
8. Dylai gwelliannau mewn gwybodaeth perfformiad a gyflwynwyd i'r bwrdd ei gynorthwyo i gyflawni ei rôl craffu'n effeithiol.
9. Nid yw barn defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu defnyddio fel mater o drefn i lywio a gwella gwasanaethau.

**Esboniad o ganfyddiadau**

**1. Arweinyddiaeth a llywodraethu – cyfiawnder troseddol ac amcanion cysylltiedig yn cael eu diwallu**

1.1. Yn dilyn newid lleoliad y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i'r Adran Dysgu Gydol Oes yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r awdurdod wedi sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar lefel uwch swyddog a lefel rheoli i hyrwyddo cyfathrebu ar draws y ddwy gyfarwyddiaeth. Roedd rheolwyr yn yr awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, gan gynnwys trawsgynrychiolaeth ar dimau rheoli ei gilydd.

1.2. Roeddem yn siomedig nad oedd yn ymddangos bod rôl Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei ddeall yn dda gan bob un o'i aelodau

neu'n ysgogwr allweddol i hyrwyddo gwaith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid o ran cyflawni amcanion cyffredin o atal troseddu, amddiffyn y cyhoedd a chadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

1.3. Roedd angen i bresenoldeb yr Heddlu ar y Bwrdd fod ar lefel strategol, ond wedi bod yn wael hyd yma, gyda phresenoldeb mewn dim ond dau allan o'r pedwar cyfarfod diwethaf, ond gan ddau arolygwr heddlu gwahanol. Roedd presenoldeb gan gynrychiolwyr iechyd a'r gwasanaeth prawf hefyd wedi bod yn wael yn ddiweddar ac nid oedd swyddog awdurdod lleol allweddol wedi gallu bod yn bresennol oherwydd gwrthdaro yn amseroedd y cyfarfodydd. Er bod rhesymau penodol ym mhob achos, mae gan ddiffyg presenoldeb partneriaid statudol effaith sylweddol ar effeithiolrwydd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

1.4. Roedd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys rhai aelodau etholedig o Gyngor Wrecsam. Cawsant eu hysbysu'n dda am waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, roeddynt yn ymroddedig i'w gwaith o leihau aildroseddu ac yn weithgar wrth herio perfformiad. Roedd yn gadarnhaol, er nad oedd yn aelod o'r Bwrdd Rheoli, bod y Cyfarwyddwr statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael cofnodion y cyfarfod a oedd yn cyd-fynd â rhaglen y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

1.5. Cytunwyd ar gylch gorchwyl newydd ar gyfer gwaith y Bwrdd Rheoli yn ddiweddar, ac roedd cynlluniau ar waith i'r Bwrdd ymgymryd ag ymarfer hunanasesu a datblygu. Fodd bynnag, byddai effeithiolrwydd hyn yn dibynnu ar bresenoldeb gan nifer ddigonol o gynrychiolwyr partner.

1.6. Roedd diffyg ymgysylltiad gweithredol ar lefel uwch wedi arwain at ddiffyg craffu ar ddata perfformiad ansoddol a meintiol ar gyfer gwaith iechyd yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

1.7. Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi'i gynrychioli'n dda ar y gr□p gweithredol a datblygiad y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (bwrdd ar y cyd â Sir y Fflint). Fe wnaethom nodi'r gwaith cadarnhaol a ddechreuwyd yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, sydd bellach yn cael ei ddatblygu gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, mewn perthynas â datblygu perthynas waith agosach a phrotocol gyda darparwyr annibynnol yn yr awdurdod i reoli'r mater cymhleth o blant a phobl ifanc a leolir yn yr awdurdod o du allan i'r sir. Mae'n bwysig bod y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a'r Bwrdd Rheoli yn datblygu ffrydiau gwybodaeth a rennir o'r fath a systemau perfformiad.

## 2. Mae perthnasau effeithiol yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol

2.1. O ganlyniad i integreiddio y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, roedd Pennaeth yr Adran Dysgu Gydol Oes yn gwybod mwy am addysg plant a phobl ifanc o dan ei oruchwyliaeth. Roedd yn cymryd cyfeiriad cynyddol gadarn ac yn defnyddio ei bwerau statudol gyda phenaethiaid uwchradd os nad oeddent yn gwneud popeth rhesymol i gynnal plant a phobl ifanc yn yr ysgol neu'n eu hailintegreiddio.

2.2. Canlyniad arall o ailstrwythuro'r awdurdod lleol oedd bod tîm rhianta canolog a oedd yn caniatáu ymateb mwy cydgysylltiedig i weithio gyda rhieni yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

2.3. Ar lefel strategol, roedd y Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rhy araf i ymateb i'r diffyg darpariaeth hyfforddiant o ansawdd da ar gyfer plant h□n a phobl ifanc. Nid oedd bob amser yn canolbwyntio yn ddigon da ar yr anawsterau y mae pobl ifanc a fynychodd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn eu profi wrth geisio dod o hyd i swyddi neu leoliadau gwaith.

2.4. Nid oedd gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid systemau effeithiol ar waith eto i fesur effaith ymyriadau ar ganlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc. Nid oedd canlyniadau ETE yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd ac nid oedd dangosyddion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a adroddwyd yn darparu ffordd ddigon effeithiol o fesur perfformiad addysgol. Mae'r awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi cydnabod hyn ac yn gweithio i gysoni gwahanol systemau TG yr awdurdod lleol i wella monitro ac adrodd ar berfformiad yn y maes hwn.

2.5. Roedd yr adnodd llawn-amser blaenorol a gynigiwyd gan SALT wedi cael ei leihau o hanner. Cyllidir y swydd yn unig tan ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Er bod y Pennaeth Gwasanaeth yn paratoi papur i gefnogi cyllid parhaus (o Iechyd), nid yw Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ymddangos fel eu bod yn cymryd rhan weithredol yn y mater hwn, er enghraifft, drwy nodi a allai adnoddau cyfun helpu i sicrhau'r gwaith effeithiol hwn. Rydym yn pryderu bod gwasanaeth hynod o werthfawr sy'n bodloni angen clir ac arwyddocaol o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid o bosibl mewn perygl.

2.6. Rhaid gallu darparu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid trwy'r Gymraeg a'r Saesneg, yn newis iaith defnyddiwr y gwasanaeth. Roedd yn amlwg o arsylwi adeilad y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid bod rhai hysbysiadau yn Saesneg yn unig ac er bod cyfoeth o ddeunyddiau cyngor ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth, dim ond yn Saesneg roeddent yn cael eu dangos. Lle maent yn ddwyieithog, roedd y wybodaeth yn Gymraeg yn wynebu'r wal, gyda'r Saesneg yn unig yn weladwy. Nid oedd tystiolaeth bod Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi ceisio hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel norm yn ddiweddar, nac wedi bodloni ei hun, fod ei rwymedigaethau yn hyn o beth yn cael eu bodloni.

## 3. Mae rheoli gweithlu'n effeithiol yn cefnogi darparu gwasanaeth o ansawdd

3.1. Roedd staff a rheolwyr gweithredol ar draws gwasanaethau cymdeithasol i blant a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn aneglur ynghylch hawliau mynediad Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid at system electronig y gwasanaethau cymdeithasol, a elwir yn RAISE. O ganlyniad, nid oeddent bob amser yn ymwybodol o ba wybodaeth oedd eisoes ar gael iddynt mewn perthynas ag achosion a rennir, na statws presennol yr achos yn y gwasanaethau cymdeithasol. Mewn un achos, roedd yn ymddangos nad oedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gwybod bod achos wedi bod ar gau i wasanaethau cymdeithasol plant yn dilyn asesiad, er gwaethaf dibyniaeth y gwasanaethau cymdeithasol ar y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i gyflawni'r cynllun. Roeddem yn ymwybodol bod y gwasanaethau cymdeithasol gyda system lle'r oedd llythyrau cau yn cael eu hanfon i asiantaethau fel mater o drefn yn ystod yr adeg o gau, ond ni ddigwyddodd y tro hwn.

3.2. Roedd yr angen i sicrhau mynediad cyson at RAISE eisoes wedi'i nodi gan Bennaeth y Gwasanaeth. Roedd trafodaethau ar y gweill mewn perthynas â datblygu protocolau mynediad. Mae angen egluro mynediad staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid at RAISE a rhoi protocolau ar waith cyn gynted ag y bo

modd gyda'r diben penodol o hwyluso'r cyfathrebu eglurach rhwng adrannau mewn perthynas â rheoli risg a bod yn agored i niwed a darparu gwybodaeth amserol i'r llys. Er byddai mynediad at RAISE yn cefnogi gwell cyfathrebu, ni ddylid ei ystyried yn lle cyswllt uniongyrchol rhwng staff o'r ddau wasanaeth. Dylai gweithwyr fod yn rhagweithiol wrth geisio unrhyw eglurhad neu wybodaeth sydd eu hangen arnynt yngl□n ag unrhyw achos a rennir.

3.3. Roedd datblygiad diweddar o weithdai archwilio yn cynnwys rheolwyr o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol plant yn ddatblygiad cadarnhaol. Roedd gan y fenter hon y potensial o greu mwy o ddealltwriaeth o faterion a rennir ar draws yr adrannau; byddai staff gweithredol yn elwa ar gyfleoedd tebyg. Mae'n bwysig bod dysgu o'r gweithdai hyn yn cael ei ledaenu'n effeithiol.

3.4. Fe wnaethom nodi cyfleoedd yn ddiweddar ar gyfer hyfforddiant staff ar y cyd i ddefnyddio'r defnydd o offer asesu risg a bod cynlluniau ar gyfer cysgodi swyddogaethau ar draws adrannau yn cael eu datblygu. Dywedodd staff o'r ddau wasanaeth wrthym eu bod yn croesawu'r cyfleoedd i ddeall swyddogaethau a chyfrifoldebau priodol eu cydweithwyr yn well.

3.5. O'n cyfweliadau gwelwyd bod rheolwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd rheolaidd ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth. Er enghraifft, mynychodd Pennaeth y Gwasanaethau Ieuenctid Integredig gyfarfodydd tîm rheolwyr adrannol Pennaeth Atal a Gofal Cymdeithasol Plant yn rheolaidd ac yn cyfarfod â Phenaethiaid Gwasanaeth eraill. Roedd rheolwyr tîm ar draws y gwasanaethau cymdeithasol plant a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cyfarfod hefyd mewn cyfarfodydd rheoli gweithredol misol.

3.6. Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn amlwg yn gwerthfawrogi hyfforddiant a datblygu ar gyfer pob gr□p o staff. Roedd staff yn canmol y cyfleoedd a ddarparwyd iddynt i gyflawni eu rolau presennol yn well, ar gyfer eu datblygiad parhaus ac er mwyn eu galluogi i ddarparu ymyriadau effeithiol yn ôl bwriad eu cynlluniau. Roeddent o'r farn bod diwylliant y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn weithredol yn hyrwyddo dysgu a datblygu. Er bod prosesau a oedd yn cael eu datblygu drwy anghenion hyfforddi personol a chorfforaethol, nid oedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnal ei gynllun hyfforddi ei hun.

3.7. Roedd staff yn teimlo eu bod yn deall ac wedi'u hymroi i'r aildrefnu diweddar, yn fewnol o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r integreiddiad pellach gyda'r gwasanaethau ieuenctid. Fe wnaethant ddweud eu bod wedi chwarae llawer o ran gan fod y newidiadau hyn wedi'u cynllunio a'u cyflawni. Ystyriwyd y symud i'r Adran Dysgu Gydol Oes yn gam cadarnhaol fel ffordd o hyrwyddo hyblygrwydd a mynediad posibl at amrywiaeth ehangach o wasanaethau gyda ffocws cryf ar atal.

3.8. Roedd staff, gan gynnwys gweithwyr iechyd, camddefnyddio sylweddau ac addysg, yn siarad yn gadarnhaol am eu rheolwyr ac, yn benodol, am ansawdd y goruchwylio a'r gefnogaeth a gawsant, ac yn ystyried bod hyn yn effeithiol ac yn addas. Roeddent yn gallu adnabod amgylchiadau lle roedd rheolwyr yn amlwg yn bodloni eu hunain am ansawdd darn o waith cyn roeddent yn barod i'w gydlofnodi.

## 4. Mae dysgu a gwella'n cynyddu'r tebygolrwydd bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni a'u cynnal

4.1. Bu'r Bwrdd Rheoli a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn awyddus i dderbyn mewnbwn ymgynghorol a gynigiwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w helpu i ddeall yr hyn sy'n achosi cyfraddau aildroseddu lleol a nodi strategaethau i ymdrin â hyn. Roeddent wedi cymryd rhan gadarnhaol gyda'r gwaith hwn, a oedd yn tynnu i'w derfyn.

4.2. Roedd ansawdd y wybodaeth am berfformiad a ddarparwyd i'r Bwrdd Rheoli wedi gwella'n sylweddol. Roedd bellach yn canolbwyntio ar ddata lleol a diweddar yn ogystal â dangosyddion cenedlaethol. Roedd cynlluniau i ddatblygu hyn ymhellach. Dylai hyn fod yn werthfawr o ran galluogi'r Bwrdd i ddarparu trosolwg a her yn fwy effeithiol.

4.3. Roeddem yn falch o ganfod bod cynllun darparu gweithredol cyfredol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys ystod o gamau gweithredu sy'n deillio o hunanasesiad yn erbyn y canfyddiadau o adroddiadau arolygu thematig diweddar, yn ogystal â chamau gweithredu sy'n deillio o gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a chynlluniau datblygu parhaus y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

4.4. Nid yw'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnal arolwg rheolaidd o ddefnyddwyr gwasanaeth (dioddefwyr, plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr), i ddeall eu barn ar y gwasanaethau maent wedi eu derbyn, er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

4.5. Fe wnaeth Rheolwyr yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fynegi'r pwysigrwydd o ddefnyddio tystiolaeth ymchwil i hysbysu a llywio'r ffordd maent yn gweithio. Dywedodd un "...*os yw ymchwil yn dweud wrthym ei fod yn gweithio, yna byddwn yn ei wneud yn y ffordd honno*...". Un enghraifft o ddefnyddio'r dull hwn oedd comisiynu prifysgol i helpu i ddeall y rhesymau pam bod plant a phobl ifanc yn cyrraedd y cam lle'r oedd yn rhaid gweithredu yn eu herbyn am iddynt dorri'r amodau.

## Crynodeb

*At ei gilydd, nid oedd llywodraethu yn effeithiol.* Gwelsom waith partneriaeth da yn Wrecsam ac ymrwymiad i waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Fodd bynnag, roedd cadernid y gwaith hwn yn gyfyngedig iawn oherwydd presenoldeb gwael rhai partneriaid statudol ym Mwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Y canlyniad oedd na allai'r corff hanfodol hwn ddwyn partneriaid i gyfrif yn effeithiol, nac, wrth weithredu fel partneriaeth, ddwyn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i gyfrif. Roedd gwaith ar y gweill i fynd i'r afael ag effeithiolrwydd y bwrdd rheoli. Roeddem yn falch bod lleihau aildroseddu gan blant a phobl ifanc yn cael ei adlewyrchu mewn blaenoriaethau lleol a bod gwybodaeth dda am waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Ni roddwyd sylw digonol i hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Nid oedd barn defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu casglu a'u coladu fel mater o drefn, er mwyn llywio datblygiad a gwella gwasanaethau.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth gyd-destunol am yr ardal a arolygwyd

Roedd gan Wrecsam boblogaeth o 134,844 fel a fesurwyd yng Nghyfrifiad 2011. Roedd y boblogaeth ieuenctid (y rhai rhwng 10 a 17 oed) yn cyfrif am 9.3% o'r boblogaeth. Roedd hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol, sef 9.5%.

Roedd canran y boblogaeth ieuenctid ag etifeddiaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn 3.6% (Cyfrifiad 2011). Roedd hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru/Lloegr, sef 18.3%.

Roedd troseddau a adroddwyd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 10-17 oed a gafodd waredriad cyn-llys neu warediad llys yn 2010/2011, yn 37 am bob 1,000, yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 26 (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2011 - 2012).

Nid oes data ar gael ar gyfer y gyfran o bobl ifanc yn Wrecsam sy'n 16-18 oed nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Amcangyfrifir mai'r cyfartaledd ar gyfer Lloegr yw 5.7% (Adran Addysg 2012).

## Dangosyddion Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r dangosyddion Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn fesurau cenedlaethol o waith a pherfformiad Tîm Troseddau Ieuenctid:

### *Mesurau aildroseddu:*

(I) O'r plant a'r bobl ifanc hynny a gafodd gerydd, rhybudd terfynol, collfarn llys neu a gafodd eu rhyddhau o'r ddalfa neu brofi'n bositif am gyffur dosbarth A wrth eu harestio, y gyfran sy'n aildroseddu o fewn cyfnod adrodd o 12 mis. Roedd y gyfran aildroseddu hon ar gyfer Wrecsam yn 45.4%, yn waeth na'r 35.8% ar gyfer Cymru a Lloegr yn eu cyfanrwydd.

(II) O'r plant a'r bobl ifanc hynny a gafodd gerydd, rhybudd terfynol, collfarn llys neu a gafodd eu rhyddhau o'r ddalfa neu brofi'n bositif am gyffur dosbarth A wrth eu harestio, y nifer gyfartalog o aildroseddu o fewn 12 mis, fesul 100 fel plant a phobl ifanc. Ar gyfer Wrecsam, roedd 1.45 o droseddau am bob plentyn neu berson ifanc sy'n aildroseddu, yn waeth na'r 1.03 ar gyfer Cymru a Lloegr yn eu cyfanrwydd.

(Data yn seiliedig ar garfan Ebrill 2010 hyd at Fawrth 2011)

### *Mesurau unigolion sy'n dod i mewn i'r system am y tro cyntaf:*

Nifer y plant a phobl ifanc a gafodd eu cerydd cyntaf, rhybudd terfynol neu gollfarn llys (ac felly'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid) mewn cyfnod o 12 mis, fel cyfran fesul 100,000 o bobl ifanc 10-17 oed yn y boblogaeth leol yn gyffredinol. Mae'r ffigwr ar gyfer Wrecsam yn 990, o'i gymharu â 595 ar gyfer Cymru a Lloegr yn eu cyfanrwydd.

(Data yn seiliedig ar garfan Hydref 2011 hyd at Fedi 2012)

### *Mesur defnyddio'r ddalfa:*

Nifer y plant a phobl ifanc a gafodd gollfarn llys, sy'n cael eu dedfrydu i gyfnod o 12 mis yn y ddalfa, fel cyfran fesul 1,000 o bobl ifanc 10-17 oed yn y boblogaeth leol yn gyffredinol. Nid oes data ar gael ar gyfer Wrecsam. Mae'r ffigwr ar gyfer Cymru a Lloegr yn eu cyfanrwydd yn 0.72.

(Data yn seiliedig ar garfan Ionawr 2012 hyd at Ragfyr 2012)

# Atodiad 2

### Gwybodaeth gyd-destunol am y sampl achos a arolygwyd

Yn yr wythnos gyntaf o waith maes, fe wnaethom edrych ar sampl gynrychioliadol o 23 o achosion unigol hyd at 12 mis oed, rhai yn gyfredol, eraill wedi'u terfynu. Roedd y rhain yn cynnwys achosion haen gyntaf (gorchmynion atgyfeirio a gorchmynion gwneud iawn), gorchmynion adsefydlu ieuenctid (yn bennaf y rhai â gofynion goruchwylio), gorchmynion cadw a hyfforddi a dedfrydau eraill o garchar.

Roedd y sampl yn ceisio adlewyrchu cyfansoddiad y llwyth achosion yn ei gyfanrwydd ac yn cynnwys nifer o'r rhai sydd yn risg uchel o niwed i eraill, sy'n arbennig o agored i niwed, yn fenywod ifanc neu yn blant a phobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig.

# Atodiad 3

## Diolchiadau:

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Arweiniol** | Ian Menary, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Dirprwy Arolygydd Arweiniol** | Keith Humphreys, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Tîm yr Arolygiad** | Avtar Singh, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Gary Smallman, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Mary Browning, *Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru*<br>Rachael Bubalo, *Estyn*<br>Paul Eveleigh, *Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi*<br>Bobbie Jones, *Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*<br>Katy Young, *Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*<br>Samantha Williams, *Swyddog Ymgysylltu â Defnyddwyr* |
| **Gwasanaethau Cefnogi Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi** | Oli Kenton, *Swyddog Ymchwil Cynorthwyol*<br>Alex Pentecost, *Rheolwr Cyhoeddiadau*<br>Chris Reeves, *Prawf Ddarllenydd*<br>Jane Regan, *Swyddog Gwasanaethau Cefnogi*<br>Rob Turner, *Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi* |
| **Prif Arolygydd Cynorthwyol** | Julie Fox, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |

# Atodiad 4

### Trefniadau arolygu

Mae'r rhaglen Arolygiad llawn ar y Cyd (FJI) yn arolygu gwaith troseddau ieuenctid mewn nifer fach o ardaloedd awdurdod lleol bob blwyddyn. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ansawdd y gwaith mewn achosion statudol a charcharol yn ystod y ddedfryd hyd at ddyddiad yr arolygiad. Ei amcan yw ceisio sicrwydd bod gwaith yn cael ei wneud yn ddigon da i gyflawni'r canlyniadau cywir. Y pedair thema graidd ar gyfer yr arolygiad hwn yw:

- lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu
- amddiffyn y cyhoedd
- amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc
- sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni.

### Methodoleg:

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ar y wythnosau'n dechrau:

16 Medi 2013 a 30 Medi 2013.

Cafodd Timau Troseddau Ieuenctid eu hysbysu 11 diwrnod gwaith cyn i'r arolygiad ddigwydd. Y prif ffocws yw ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, pwy bynnag sy'n ei ddarparu. Mae achosion yn cael eu hasesu gan dîm o staff arolygu gydag aseswyr lleol (aseswyr cymheiriaid o Dîm Troseddau Ieuenctid arall). Maent yn archwilio'r rhain gyda rheolwyr achos, sy'n cael eu gwahodd i drafod eu gwaith mewn manylder, a gofynnir iddynt egluro eu meddyliau ac i nodi tystiolaeth ategol yn y cofnod.

Cyn, neu yn ystod, yr wythnos gyntaf hon rydym yn derbyn copïau o ddogfennau lleol perthnasol. Yn ystod yr wythnos yn y canol, mae'r data o'r asesiadau achos yn cael eu coladu ac mae darlun am ansawdd gwaith y Tîm Troseddau Ieuenctid yn ymddangos.

Mae ail wythnos y gwaith yn cynnwys yr elfen ar y cyd o'r arolygiad – yn ymuno ag Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ceir arolygwyr sy'n gydweithwyr o'r heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg i edrych yn fanylach ar y themâu sydd wedi dod i'r amlwg o'r asesiadau achos. Yn benodol, mae'r elfennau arweinyddiaeth, rheoli a phartneriaeth o'r arolygiad yn cael eu harchwilio, i'r graddau y maent yn cyfrannu, neu fel arall, at ansawdd y gwaith a ddarperir.

Yn ystod yr wythnos hon rydym hefyd yn casglu barn pobl eraill, gan gynnwys rheolwyr strategol, staff a defnyddwyr gwasanaeth - yn blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr, a lle bo'n bosibl, i arsylwi ar y gwaith a wneir.

Ar ddiwedd yr ail wythnos gwaith maes, rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau i reolwyr strategol lleol, y Tîm Rheoli'r Tîm Troseddau Ieuenctid, staff y Tîm Troseddau Ieuenctid a phobl eraill sydd â diddordeb.

### Trefniadau cyhoeddi

Mae adroddiad drafft yn cael ei anfon at y Tîm Troseddau Ieuenctid ar gyfer sylwadau, dair wythnos ar ôl yr arolygiad, gyda chyhoeddiad tua chwe wythnos yn ddiweddarach. Yn ogystal, mae copi yn mynd i'r Gweinidogion perthnasol, arolygiaethau eraill, Gr□p Polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae copïau ar gael i'r wasg ac ar ein gwefan.

Caiff adroddiadau Arolygiad Llawn ar y Cyd yng Nghymru eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gellir cael manylion pellach am sut y caiff yr arolygiadau hyn eu cynnal ar ein gwefan yn y ddogfen '*Fframwaith ar gyfer Rhaglen Arolygiad Llawn ar y Cyd*' ar:

http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation/inspection-programmes-youth/full-joint-inspection-fji-of-youth-offending-work

# Atodiad 5

**Dull sgorio**

Mae hwn yn disgrifio'r fethodoleg ar gyfer dyrannu sgôr ar gyfer bob thema graidd:

- Lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.
- Amddiffyn y cyhoedd.
- Amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc.
- Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni.

Mae staff arolygu yn archwilio pa mor dda y mae'r gwaith yn cael ei wneud ar draws yr achos - o asesu a chynllunio i ymyriadau a chanlyniadau, gan ganolbwyntio ar ba mor aml y gwnaed pob agwedd ar y gwaith yn ddigon da. Mae hyn yn dod â pherfformiad elfennau perthnasol o ymarfer o bob achos a arolygwyd at ei gilydd.

Mae pob cwestiwn sgorio yn yr offeryn arolygu yn cyfrannu at y sgôr ar gyfer yr adran berthnasol yn yr adroddiad. Yn y ffordd hon, mae'r themâu craidd yn canolbwyntio ar y canlyniadau allweddol.

Mae'r ymagwedd hon yn ein galluogi i ddweud pa mor aml y gwnaed pob agwedd ar y gwaith yn ddigon da, ac yn darparu'r Tîm Troseddau Ieuenctid a arolygwyd gyda ffocws clir ar gyfer eu gweithgareddau gwella. Mae pob thema graidd yn cael ei neilltuo gyda chanran sgôr (meintiol) a fydd, ynghyd â disgrifydd, yna'n cael sgôr seren dros dro.

| Sgôr asesu achos | Disgrifydd | Sgôr seren |
|---|---|---|
| 80% + | Da | ★★★★ |
| 65% - 79% | Boddhaol | ★★★☆ |
| 50% - 64% | Anfoddhaol | ★★☆☆ |
| < 50% | Gwael | ★☆☆☆ |

Mae pob un o'r themâu hyn yn cynnwys elfennau o arweinyddiaeth, rheolaeth a phartneriaeth na ellir eu gweld drwy'r system sgorio ar gyfer achosion unigol, ac sy'n ganolbwynt penodol o waith arolygiaethau partner. Mae proses gymedroli wedyn yn cymryd yr elfennau hyn i ystyriaeth i benderfynu ar y disgrifydd terfynol.

Caiff modiwlau ychwanegol eu sgorio ar sail debyg.

Os oes diffygion difrifol ac sydd heb gael sylw, mewn achosion unigol, yn ymwneud â'r risg y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn dioddef neu'n achosi niwed sy'n gadael rhywun mewn risg, yna gall hyn fod yn ffactor sy'n cyfyngu ar y sgôr seren.

Mae manylion pellach am y broses hon ar gael ar ein gwefan.

http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation/inspection-programmes-youth/full-joint-inspection-fji-of-youth-offending-work

# Atodiad 6

### Meini prawf

Caiff yr agweddau ar waith troseddau ieuenctid a ymdrinnir yn themâu craidd yr arolygiad hwn eu diffinio ym Meini Prawf yr Arolygiad ar gyfer Arolygiad Llawn ar y Cyd. Mae copi o'r meini prawf arolygu ar gael ar wefan Arolygiad Prawf Ei Mawrhydi yn y cyfeiriad canlynol:

www.justice.gov.uk/about/hmi-probation/inspection-programmes-youth/full-joint-inspection-fji-of-youth-offending-work

Caiff meini prawf unigol eu cyhoeddi ar gyfer bob modiwl ychwanegol a arolygir, sydd ar gael o'r un cyfeiriad.

# Atodiad 7

**Rhestr termau**

| | |
|---|---|
| ASB/ASBO | Ymddygiad gwrthgymdeithasol/gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| Asset | Offeryn asesu strwythuredig yn seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gan edrych ar drosedd y plentyn neu'r person ifanc, amgylchiadau personol, agweddau a chredoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad troseddol |
| CAF | Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad wedi'i safoni o anghenion plentyn neu berson ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Caiff ei gyflawni gan y gweithwyr proffesiynol arweiniol mewn achos, gyda chyfraniadau gan bawb arall sy'n ymwneud â'r unigolyn hwnnw |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, sy'n darparu iechyd meddwl arbenigol a gwasanaethau ymddygiadol i blant a phobl ifanc hyd at o leiaf 16 oed |
| CJS | System cyfiawnder troseddol. Yn cynnwys unrhyw un neu bob un o'r asiantaethau sy'n ymwneud â chynnal a gweithredu'r gyfraith – heddlu, llys, Timau Troseddau Ieuenctid, y gwasanaeth prawf a charchardai |
| Diogelu | Y gallu i ddangos bod pob cam rhesymol wedi'u cymryd i gadw'r risg o niwed i blentyn neu berson ifanc mor isel â phosibl |
| DTO | Gorchymyn cadw a hyfforddi: dedfryd carcharol i'r ifanc |
| Dull fesul camau | Y ffordd mae'r Timau Troseddau Ieuenctid yn penderfynu ar ba mor aml y cysylltir â'r plentyn neu'r person ifanc, yn seiliedig ar eu tebygolrwydd o aildroseddu |
| Estyn | Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru |
| ETE | Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella dysgu unigolyn, a chynyddu eu rhagolygon am swydd |
| FTE | Cyfwerth ag amser llawn |
| HM | Ei Mawrhydi |
| ISS | Gwyliadwriaeth a Goruchwyliaeth Ddwys: mae'r ymyriad hwn ynghlwm wrth ddechrau rhai gorchmynion a thrwyddedau ac yn darparu cyswllt sydd o leiaf 25 awr i ddechrau gan gynnwys cyfran sylweddol o gyflogaeth, hyfforddiant ac addysg |
| LSC | Cyngor Dysgu a Sgiliau |
| LSCB | Bwrdd Lleol Diogelu Plant: wedi'u sefydlu ym mhob awdurdod lleol (o ganlyniad i Ddeddf Plant 2004) i gydlynu a sicrhau effeithiolrwydd gwaith amlasiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn yr ardal honno |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, carchar ac asiantaethau eraill yn cydweithio'n lleol i reoli troseddwyr sy'n peri risg uwch o niwed i eraill |
| Ofsted | Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn) |
| Prawf EM | Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi |
| PCT | Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol |

| | |
|---|---|
| Pre-CAF | Mae hwn yn 'Gais am Wasanaeth' syml yn yr achosion hynny lle nad oes angen Fframwaith Asesu Cyffredin. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer gofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, er enghraifft iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg |
| PSR | Adroddiad cyn-dedfrydu: ar gyfer llys |
| *Risg o niwed i eraill* | Gweler hefyd Ymyriadau *cyfyngol* |
| *'Gwaith risg o niwed i eraill', neu 'gwaith Risg o niwed'* | Dyma'r term a ddefnyddir yn gyffredinol gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i ddisgrifio'r gwaith i ddiogelu'r cyhoedd, yn bennaf drwy ddefnyddio *ymyriadau cyfyngol* i leihau cyfle unigolyn i ymddwyn mewn modd sy'n risg o niwed i eraill |
| RoSH | Risg o niwed difrifol: term a ddefnyddir yn Asset. Mae'n well gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i beidio â defnyddio'r term hwn gan nad ydyw'n helpu i egluro'r gwahaniaeth rhwng y *tebygolrwydd* o ddigwyddiad yn digwydd ac *effaith/difrifoldeb* y digwyddiad. Mae'r term *Risg o Niwed Difrifol* ond yn ymgorffori effaith 'ddifrifol', tra bod defnyddio 'risg o niwed' yn galluogi bod y sylw priodol yn cael ei roi i'r troseddwyr hynny sy'n *debygol* o ddangos ymddygiad niweidiol *effaith/difrifoldeb* |
| RMP | Cynllun rheoli risg: cynllun i leihau risg o niwed yr unigolyn |
| SALT | Therapydd Iaith a Lleferydd |
| SIFA | Cyfweliad Sgrinio i'r Glasoed: Offeryn sgrinio iechyd meddwl y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer gweithwyr arbenigol |
| SQIFA | Cyfweliad Holiadur Sgrinio i'r Glasoed: Offeryn sgrinio iechyd meddwl y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer gweithwyr Timau Troseddau Ieuenctid |
| Tebygolrwydd o aildroseddu | Gweler hefyd Ymyriadau *adeiladol* |
| VMP | Cynllun rheoli breguster: cynllun i ddiogelu lles yr unigolyn o dan oruchwyliaeth |
| YJB | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr |
| Ymyriadau; *adeiladol* a *chyfyngol* | Gweithio gydag unigolyn sydd wedi'i ddylunio i newid eu hymddygiad troseddol a/neu i gefnogi diogelu'r cyhoedd.<br>Prif bwrpas ymyriad *adeiladol* yw lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.<br>Prif bwrpas ymyriad *cyfyngol* yw cadw risg o niwed gan yr unigolyn i eraill mor isel â phosibl .<br>Esiampl: gyda throseddwr rhyw, efallai y cânt *ymyriad cyfyngol* drwy raglen troseddwr rhyw achredededig; gall *ymyriad cyfyngol* (i leihau'r risg o niwed) gynnwys monitro'n rheolaidd ac yn gywir, eu llety, cyflogaeth a'r lleoedd maent yn ymweld â nhw, gan osod a gweithredu cyfyngiadau clir fel y bo'n briodol i bob achos.<br>ON. Mae'r ddau fath o ymyriad yn bwysig |
| YOI | Sefydliad Troseddwyr Ifanc: sefydliad Gwasanaeth Carchar i blant a phobl ifanc yn y ddalfa neu wedi'u dedfrydu i'r ddalfa |
| YOIS+ | System Gwybodaeth Troseddau Ieuenctid: un o ddwy system rheoli achosion electronig ar gyfer gwaith troseddau ieuenctid a ddefnyddir ar hyn o bryd yn Lloegr a Chymru |

| | |
|---|---|
| YOS/YOT/YJS | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid/Tîm Troseddau Ieuenctid/Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r rhain yn deitlau cyffredin ar gyfer y cyrff y cyfeirir atynt fel y Timau Troseddau Ieuenctid |
| YRO | Mae'r gorchymyn adsefydlu ieuenctid yn ddedfryd gymunedol generig a ddefnyddir gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu |

# Atodiad 8

**Swyddogaeth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer**

Gellir cael gwybodaeth am swyddogaeth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer ar ein gwefan:

www.justice.gov.uk/about/hmi-probation

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylw ar yr arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater o fewn ei gylch gwaith ysgrifennu at:

HM Chief Inspector of Probation
Manchester Civil Justice Centre, 1st Floor
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX